

Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd **2014–2015**

**Gwella gofal oedolion,
gofal plant a gwasanaethau
cymdeithasol yng Nghymru**





Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol dros wasanaethau gofal oedolion, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Rydym yn rheoleiddio ac arolygu i wella gwasanaethau gofal, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol i bobl yng Nghymru. Bob blwyddyn rydym yn asesu gwasanaethau ac yn adrodd ar ddiogelwch ac ansawdd profiadau pobl o ofal, a'r effaith y mae wedi ei chael ar ansawdd eu bywyd.

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu ac yn myfyrio ar ein gwaith yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015. Mae'n rhoi trosolwg o'n canfyddiadau, yn disgrifio sut rydym wedi perfformio, ac yn adrodd ar y cynnydd rydym yn ei wneud wrth wella ein gwaith.

Rydym yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol wrth baratoi'r sefydliad ar gyfer newid trawsffurfiol i adlewyrchu'r cyfreithiau a pholisïau newydd sy'n dod i rym yn 2016 a thu hwnt.

Ble i gael rhagor o wybodaeth

Rydym yn ysgrifennu adroddiadau ar ein holl arolygiadau ac adolygiadau.

Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth bob chwarter ar nifer y gwasanaethau a'r manau rydym yn eu rheoleiddio.

Mae mwy o wybodaeth ar gael amdanom ni ar ein gwefan www.aggcc.org.uk ac yn Atodiad A yr adroddiad hwn. Gallwch ein dilyn ni ar Twitter hefyd twitter.com/arolygu_gofal neu gwyliwch ni ar www.youtube.com/cssiw

Ein pwerau cyfreithiol

Rydym yn cyflawni ein swyddogaeth ar ran gweinidogion Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r pwerau a roddir trwy'r Deddfau canlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, sy'n rhoi'r awdurdod i ni adolygu'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.
- Deddf Safonau Gofal 2000, Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, a Mesur Plant a Theuluoedd 2010, sy'n rhoi pŵer i ni gofrestru ac arolygu gwasanaethau.

Bydd y ddwy ddeddf newydd hyn yn newid y ffordd y bydd gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu yng Nghymru a'n swyddogaeth fel rheoleiddiwr ac arolygydd gofal.

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cael effaith sylweddol ar ein busnes a'n swyddogaethau statudol.

Mae newidiadau i reoliadau a wnaed dan Fesur Plant a Theuluoedd 2010 i ymestyn uchafswm oedran gofal plant a chwarae a reoleiddir i blant dan 12 oed erbyn 2016, ynghyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a ffocws o'r newydd Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â thlodi plant i gyd wedi cael effaith sylweddol ar raddfa ac ystod y gwasanaethau gofal plant a chwarae rydym yn eu rheoleiddio a'u harolygu.

Yn ystod 2014-15, gwnaethom ymgymryd â phrosiect mawr i ddiweddarau ein prosesau gweithredol a symud ein gwybodaeth am wasanaethau sydd wedi'u cofrestru ac sy'n cael eu rheoleiddio o gronfa ddata etifeddiaeth i system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd Microsoft Dynamics. Rydym wedi gweithio'n galed i liniaru effaith y newid hwn ar ein gwybodaeth, ac rydym yn parhau i lanhau, diweddarau a gwella ein prosesau a'n gwybodaeth i wella cysondeb a chywirdeb ein cofnodion busnes. Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r wybodaeth a ddelir gennym ar 31 Mawrth 2015.

Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2014–2015

Cynnwys

Rhagair gan ein Prif Arolygydd	2
Pennod Un: Mae pobl yn gwneud gwahaniaeth	4
Pennod Dau: Sut y gwnaethom berfformio – gwella gwasanaethau gofal a reoleiddir	7
Pennod Tri: Y cyd-destun ar gyfer newid – gwella ein busnes	14
Pennod Pedwar: Golwg fanylach ar awdurdodau lleol	24
Pennod Pump: Golwg fanylach ar wasanaethau plant	30
Pennod Chwech: Golwg fanylach ar wasanaethau oedolion	40
Pennod Saith: Ein blaenoriaethau ar gyfer 2015–18	54
Atodiad A: Yr hyn rydym yn ei wneud	56
Atodiad B: Sut i leisio pryder	62

Rhagair gan ein Prif Arolygydd Imelda Richardson

Newid er gwell



Wrth i mi edrych yn ôl dros flwyddyn arall o waith i ddatblygu ein Rhaglen Newid o fewn yr Arolygiaeth, mae'r archwaeth am newid a gwella yn rhemp ledled yr holl wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Yn ystod

2014-2015, parhaodd ein sefydliad y broses o newid wrth gynnal rhaglen o arolygu a gwelliant o fewn gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Gwnaethom gwblhau 4,416 o arolygiadau a gweithio'n galed i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o sut i leisio pryder, a dyna pam y cynhaliwyd 304 o'r arolygiadau hyn mewn ymateb i bryderon a leisiwyd. Gwnaethom wrando ar bobl, defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gennym, a chymryd y pryderon hyn o ddifrif.

Paratoi ar gyfer newid

Yn 2014-2015 canfuom fod y rhan fwyaf o wasanaethau'n perfformio'n dda, gyda 91% o'r holl wasanaethau yn bodloni safonau gofal, ac nad oedd angen camau gorfodol. Mae hyn yn brawf o ymroddiad y mwyafrif o ddarparwyr gofal yng Nghymru sy'n darparu'r lefel o ofal y mae pobl yn ei haeddu. Fodd bynnag, o'r 9% sy'n weddill ni wnaeth nifer fechan fodloni'r safonau, gan greu'r angen am fonitro a chamau gweithredu sylweddol, a gwnaethom weithio'n agos â darparwyr a chomisiynwyr i sicrhau bod ansawdd y gofal yn gwella. Nid ydym yn goddef gofal gwael a byddwn yn cymryd camau gorfodol ble y bo eu hangen. Gallwch ddarllen mwy am ein camau gorfodi ym mhennod dau.

2014-2015 oedd y flwyddyn y gwnaethom baratoi'r ffordd ar gyfer y ddeddfwriaeth gymhleth oedd yn cael ei datblygu gan

Lywodraeth Cymru a fyddai'n newid diwylliant. Pan oedd angen newid, gwnaethom dderbyn yr her. Roeddem yn benderfynol o weithio mwy gyda dinasyddion, darparwyr a phartneriaid, ac i ddatblygu ffyrdd newydd o arolygu a chanfod datrysiadau. Roedd hyn o gymorth i ni hysbysu am brofiadau gofal y rhai sy'n derbyn ac yn gweithio yn y gwasanaethau gofal a dyma sydd wrth wraidd ein gwaith arolygu. Mae ein gwaith gwella a moderneiddio yn destament i sgiliau a gallu ein holl staff.

Mae pobl o bwys

Mae awdurdodau lleol a chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yn helpu i lywio ein gwaith, a thrwyddynt rydym yn deall sut mae'r gwaith o roi cymorth a gofal i bobl yn cael ei gynllunio a'i drefnu ledled holl ranbarthau Cymru. Serch hynny, all dim byd fesur gwir effaith y gofal a'r cymorth a ddarperir yn well nag unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn ar y pryd. Pan fydd gofal yn annigonol, mae angen i bob un ohonom – AGGCC, awdurdodau lleol, comisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol a darparwyr gwasanaeth – gydweithio i graffu ar beth sydd wedi mynd o'i le a rheoleiddio i wella gwasanaethau.

Rydym yn parhau i gryfhau a datblygu swyddogaeth a chwmpas ein Bwrdd Cyngori Cenedlaethol, sy'n cael ei gadeirio'n fedrus iawn gan yr Athro Judith Hall o Brifysgol Caerdydd – gallwch ddarllen mwy am gyflawniadau'r bwrdd ym mhennod un. Mae ein gwaith gyda'r bwrdd hefyd wedi arwain rhaglen arall o ymgysylltu â dinasyddion sy'n cynrychioli anghenion gofalwyr, darparwyr, a phobl sy'n derbyn gofal a chymorth ym mhob rhan o Gymru, ar ffurf ein tri Bwrdd Cyngori Rhanbarthol a fydd yn cael eu lansio yn 2015-16. Rydym am sicrhau bod ein gwaith wedi ei ymgorffori'n gadarn ym mhob rhanbarth a'n bod yn parhau i gadw ffocws cenedlaethol a rhanbarthol cryf yn ein

gwaith. Mae ein Bwrdd Cyngori Cenedlaethol yn ein herio i wneud yn well ac yn ein helpu i ddatblygu, a hoffwn ddiolch iddynt am weithio gyda ni i wella'r ffordd rydym yn gweithio.

Cydweithio

Un peth yr oeddwn wedi bwriadu ei wneud ac rwyf wedi ei roi ar waith eleni yw Fforwm Ansawdd newydd. Mae'r Fforwm Ansawdd yn cynnwys partneriaid strategol o bob rhan o Gymru, ac mae'n ceisio gwneud iawn am yr hyn rydym yn ei alw ar y cyd yn 'broblemau drwg' mewn gofal y gallwch ddarllen amdanynt ym mhennod tri. Rydym yn gwneud cynnydd da, ac mae synnwyr cryf o gyfrifoldeb a chydweithredu i gyflawni agwedd Cymru gyfan tuag at y problemau hyn.

Hoffwn ddiolch i'm cyfatebwyr yn Arolygu Cymru am gryfhau ein gwaith partner ac am eu hymroddiad i amlygu effaith ein cydweithrediad. Yn ystod 2014–15, gwnaethom osod sylfaen a fyddai'n ein galluogi i gwblhau gwaith pellach gyda'n gilydd ac i ymuno â'n gilydd ar brosiectau yn y dyfodol. Gwnaethom hefyd weithio'n agosach nag erioed â Chyngor Gofal Cymru (a gaiff ei alw'n Gofal Cymdeithasol Cymru cyn hir), gan sicrhau bod hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr gofal yn cael eu hamlygu a, gyda'n gilydd, ein bod yn hyrwyddo'r sector yn ei gyfanrwydd.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r sector am weithio gyda ni i wella'r gofal mae'n ei ddarparu. Rwy'n deall bod y newid yn hinsawdd gofal cymdeithasol yn heriol ac y bydd yn cael effeithiau dilynol dealladwy o ran paratoi'r gweithlu. Yr hyn rwyf wedi ei weld ar fy ymweliadau ymgysylltu rheolaidd ledled Cymru yw bod yr arweinwyr a'r rheolwyr sy'n darparu cymorth a gwasanaethau ardderchog yn ysbrydoli eraill i wneud yr un peth. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelais y gwaith ardderchog oedd yn digwydd yn Cysylltu Bywydau a Mwy – model gwych ar gyfer lleoliadau maethu a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Cyfarfyddais â gofalwyr a'u teuluoedd – yng Nghaerfyrddin, Abertawe a Bae Caerdydd – a roddodd gyfrif gonest a di-flewyn-ar-dafod i mi o'r heriau maent yn eu hwynebu'n ddyddiol. Gwelais hefyd ymroddiad gwirioneddol staff meithrin a blynyddoedd cynnar, o Ynys Môn a Llangejni yng ngogledd Cymru i Dreorci a Chaerau yn ne Cymru.

Eich rhanbarth

Mae adeiladu a chynnal cymunedau ac adnoddau cymunedol cydnerth yn her ledled Cymru, yn arbennig wrth gwrdd ag anghenion ein dinasyddion mwyaf agored i niwed, ac mae nifer o gymunedau'n datblygu a chynllunio eu datrysiadau pwrpasol eu hunain.

Efallai nad ydych yn sylweddoli hynny eto, ond rydych yn rhanddeiliad mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae i bob un ohonom ran mewn gofal cymdeithasol a bydd pob un ohonom yn cael ein heffeithio ganddo ar ryw adeg yn ystod ein bywydau. Rydym yn arolygu ac yn gweithio gyda'r holl awdurdodau lleol i sicrhau eu bod ar y trywydd iawn i gyflawni newidiadau deddfwriaethol y dyfodol. Nid oes dim awdurdodau lleol dan ein Protocol Pryderon Difrifol ar hyn o bryd, ac er bod awdurdodau lleol yn symud tuag at newid, mae angen iddynt hefyd ystyried yn llawn sut gall integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol weithio a chyflymu'r ymdrechion hyn.

Ble rydym ni'n awr?

Yn 2014–2015, gwnaethom ddechrau paratoi'r ffordd ar gyfer deddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Rydym wedi datblygu fframweithiau enghreifftiol i gydnabod y galw a'r disgwyliadau newydd sy'n codi yn sgil y ddeddfwriaeth hon, ac mae hwn yn gyfle i ymgorffori hawliau dynol a chanlyniadau lles yn ein fframweithiau arolygu. Byddwn yn parhau i gydweithredu gyda'n dinasyddion, darparwyr gwasanaeth a chomisiynwyr gwasanaeth i ddatblygu safonau a rheoliadau eglur ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y deddfau newydd yn gwella ein perfformiad ac yn ein gwneud yn fwy effeithiol fel rheoleiddiwr, ac rydym yn edrych ymlaen at roi rhai o'r newidiadau hyn ar waith yn 2015–2016 a thu hwnt.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn rhoi cyfle i bob un ohonom – dinasyddion, darparwyr, comisiynwyr, awdurdodau lleol a rheoleiddwyr – gydweithio i wella ansawdd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Pennod Un

Mae pobl yn gwneud gwahaniaeth

Ysgrifenydd y bennod hon gan aelodau o'n Bwrdd Cyngori Cenedlaethol, gan gynnwys y Cadeirydd, yr Athro Judith Hall.

“ Rydym yn falch i nodi effaith y bwrdd yn cryfhau llais ein pobl. Mae'r bwrdd wedi cael ei grybwyll mewn diwygiadau allweddol i wasanaethau cyhoeddus am gryfhau democratiaeth a gwella gwasanaethau fel enghraifft arfer gorau o sut y dylai cyrff cyhoeddus a rheoleiddwyr gynnwys dinasyddion yn eu gwaith¹. ”

Yr Athro Judith Hall, Cadeirydd y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol

Y llynedd gwnaethom adrodd am ein gwaith cynnar yn deall busnes AGGCC a sut mae sgiliau a phrofiad amrywiol ein haelodau wedi dechrau ychwanegu gwerth. Yn 2015, gwnaethom addo canolbwyntio ar 'wneud gwahaniaeth i'r gwasanaethau mae pobl yn eu derbyn'.

Rydym yn gobeithio ein bod wedi bod yn uchelgeisiol, gan geisio sicrhau bod rheoleiddio, arolygu ac adolygu gofal, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol yn gallu gwneud cyfraniad cynyddol gadarnhaol, ac rydym yn anelu at ragoriaeth.

'Pwysigrwydd Bwrdd Cyngori Cenedlaethol AGGCC yw ei fod yn dod â llais teuluoedd a gofawyr yn uniongyrchol at y sefydliad i lywio, cyngori a gwneud sylwadau ar y gwaith hollbwysig hwn. Mae gwaith arolygu'n hanfodol i ddiogelwch ac ansawdd bywyd pobl yng Nghymru, a rhaid iddo gael ei brofi a'i herio gan y cyhoedd. Mae'r Bwrdd Cyngori Cenedlaethol wedi dechrau'r broses honno ac wedi gosod cynsail pwysig o ran tryloywder.

Simon Hatch, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Gofawyr Cymru

Yn ystod 2015, rydym wedi canolbwyntio ar dair thema eang:

- Galluogi llais y dinesydd ac ymestyn ein hymchwil er mwyn i ragor o leisiau gael eu clywed;

- Cyngori ar newidiadau Llywodraeth Cymru i gyfraith a pholisi;
- Cefnogi gwella gwasanaeth AGGCC.

Mae ein hannibyniaeth, profiad a gwybodaeth amrywiol yr aelodau, a'n gallu i gymryd cam yn ôl o weithgareddau o ddydd i ddydd wedi ychwanegu gwerth ar sawl lefel.

Ni ellir gorbwysleisio graddfa, cyflymder ac amrywiaeth y newidiadau sy'n wynebu AGGCC dros y ddwy flynedd nesaf wrth roi ei chyfreithiau a pholisïau newydd ar waith ac wrth drawsnewid ei busnes, ac mae angen cryn gymorth arni. Rydym yno i gefnogi'r gwaith hwn, a rhaid iddynt ddarparu goruchwyliaeth o ansawdd da er mwyn i newidiadau gael eu gwneud er budd pennaf pobl. Rhaid i'r cyhoedd allu cael mynediad at ofal diogel o ansawdd yn ystod cyfnod cynhyrfus o newid.

Newidiadau i'r gyfraith a pholisi

Mae'r rhain wedi cael effaith anferthol ar ein meddwl, ac rydym wedi treulio llawer o amser yn rhoi sylw iddynt. Mae'r enghreifftiau isod yn cynrychioli detholiad bach o'n gweithgarwch yn 2015. Rydym wedi ystyried ac wedi rhoi cyngor ar:

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae graddfa a chwmpas ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar roi'r Ddeddf ar waith trwy niferoedd helaeth o reoliadau a chodau

¹ Datganiol, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol <http://gov.wales/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?skip=1&lang=cy>

ymarfer wedi gofyn am waith craffu manwl a dealltwriaeth dechnegol ar ein rhan. Ein blaenoriaeth oedd sicrhau bod y newidiadau hyn yn cynrychioli bargaen deg i bobl agored i niwed sydd angen cymorth i wella eu lles. Blaenoriaeth i ni oedd sicrhau y gellir cyflawni'r rheoliadau'n effeithiol a bod diogelwch, llais, hawliau a barn pobl (a rhai eu gofalwyr) wrth wraidd y system newydd.

Roedd yn bwysig ein bod yn cael sicrwydd y gellid dal awdurdodau lleol yn atebol am eu dyletswyddau rhianta corfforaethol dros y plant sy'n derbyn gofal ganddynt a phlant sy'n paratoi i adael gofal, a'u bod yn atebol fel cynllunwyr, comisiynwyr a rheolwyr gwasanaethau i bobl agored i niwed. Roedd yr un mor bwysig bod gan AGGCC bwerau digonol i arolygu perfformiad a gyrru gwelliannau ym maes gofal.

Rydym yn falch iawn o nodi bod ein hymateb wedi dylanwadu ar y rheoliadau a chodau ymarfer terfynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

"Un o amcanion pwysig y Ddeddf hon yw gwella bywydau gofalwyr teuluol, ac rwy'n hyderus y bydd AGGCC yn parhau i wrando ar ofalwyr ar ei Fwrdd Cyngori Cenedlaethol i ganfod a yw'r Ddeddf yn llwyddo."

Jennie Lewis, aelod o'r Bwrdd

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Roeddem yn croesawu'r Ddeddf drawsnewidiol hon. Mae'n rhaid i ni ganmol pwyllgorau craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u gwaith helaeth yn casglu tystiolaeth. Ein blaenoriaeth uchaf oedd sicrhau bod y Ddeddf yn darparu fframwaith rheoleiddiol hygyrch ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru yn y dyfodol.



Cawsom y fraind o fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi tystiolaeth ar lafar ar egwyddorion y Ddeddf. Gwnaeth ein tystiolaeth annibynnol ar lafar ac yn ysgrifenedig gyfraniad mawr i argymhellion y Pwyllgor² a chafodd ei hadlewyrchu yn y gyfraith derfynol.

Gwnaethom ddweud wrth y pwyllgor ei bod yn bwysig bod y rheoleiddiwr yn ystyried barn defnyddwyr gwasanaethau, ac yn hyn o beth mae'n croesawu ein swyddogaeth yn dylanwadu ar a llywio'r ffordd mae AGGCC yn gweithio.

Diwygiadau gofal plant

Mae'n rhaid i ni fod yn uchelgeisiol ynghylch dyfodol plant. Rydym wedi bod yn arbennig o weithgar yn sicrhau y gall plant a rhieni Cymru gael mynediad at ofal plant diogel o ansawdd. Rydym hefyd yn gwybod bod rhaid i ofal plant gynnig mwy na gofal yn unig; rhaid iddo ysgogi a chefnogi datblygiad a dysgu plant. Gwnaethom wrando'n astud ar y gwersi cynnar a ddysgwyd gan brofiad AGGCC yn rhoi prawf ar ddyfarniadau ansawdd. Rydym hefyd wedi ystyried syniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella lles plant a'i bwriad y dylid ymestyn lefel ansawdd gofal plant i ofal plant hŷn.

Gwnaeth ein hargymhellion ar gwmpas a chynnwys rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal plant a chwarae yng Nghymru yn y dyfodol gyfraniad cadarn i fframwaith arolygu newydd AGGCC. Cawsom effaith hefyd ar y buddsoddiad yn sgiliau a galluedd ei harolygwyr gofal plant ac ar ei fframwaith arolygu peilot ar y cyd ag Estyn.

Yn ein hymateb i Lywodraeth Cymru ar ei hymgyngoriad i gynyddu uchafswm oedran gofal plant a reoleiddir, gwnaethom gynnig tystiolaeth resymegol i wneud dan ddeuddeg oed yr uchafswm oedran. Roedd yn bwysig lleihau'r baich ar warchodwyr plant a darparwyr gofal dydd sydd eisoes yn gofalu am blant dros wyth mlwydd oed. Roeddem yn falch o weld bod ein tystiolaeth wedi dylanwadu ar benderfyniad terfynol y gweinidogion, ac mae'r trefniadau sydd wedi eu rhoi ar waith wedi paratoi'r sector a rhieni ar gyfer y newidiadau.

Gwelliannau i wasanaethau AGGCC

Ni yw llais y dinesydd sy'n cynghori AGGCC ar ble y mae'n rhaid iddi ganolbwyntio er mwyn gwneud gwelliannau i wella lles pobl. Fel bwrdd, rydym yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i'r swyddogaeth hon. Rydym yn gefnogol iawn i'r cam o symud oddi wrth fesur cydymffurfiaeth yn unig tuag at system sy'n adnabod gwasanaethau sy'n darparu gofal da a rhagorol. O ganlyniad, rydym yn cefnogi gwaith AGGCC i wella'r ffordd mae'n arolygu gwasanaethau a pherfformiad awdurdodau lleol. Mae'r fframweithiau arolygu newydd yn canolbwyntio ar les, ac mae datblygu dyfarniadau i'w groesawu. Rydym yn credu bod dyfarniadau'n hanfodol i yrru ansawdd a chynyddu tryloywder.

"Fel un o'r cartrefi gofal oedd yn rhan o'r fframwaith arolygu peilot, roedd elfennau cadarnhaol a rhai meysydd i'w trafod, ond y ffactor pwysig oedd ein bod wedi cyfrannu at ddatblygiad y fframwaith a bod AGGCC wedi gwrandao ar yr hyn roedd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a staff ar bob lefel i'w ddweud.

Rwy'n teimlo mai'r newid pennaf yw bod AGGCC yn gwrandao, ac rydym yn cydweithio i ddylanwadu ar a hyrwyddo safonau gofal."

Sharon Williams, Rheolwr Cartref Gofal Sŵn y Môr ac aelod o'r bwrdd

Yn y pen draw, rydym wedi bod yn eglur bod rhaid i farn defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u profiad o ofal fod wrth wraidd pob un o'r fframweithiau arolygu. Felly, rydym yn gobeithio'n fawr mai 2016 fydd blwyddyn 'llais y bobl'.

² <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=12110>


Pennod Dau

Sut y gwnaethom berfformio – gwella gwasanaethau gofal a reoleiddir

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r gwasanaethau a reoleiddiwyd gennym a'r hyn a wnaethom yn ystod 2014-15, gan gynnwys cyflenwi ein swyddogaethau craidd yn cofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal, ein gwerthusiad o berfformiad awdurdodau lleol a sut y gwnaethom wella gwasanaethau gofal a reoleiddir.

Gwasanaethau a reoleiddir gennym

Diagram 1: Nifer y gwasanaethau a reoleiddiwyd gennym, 2014–15




Cofrestru

- Gwnaethom gofrestru 407 o wasanaethau newydd;
- proseswyd 58 o geisiadau a gafodd naill ai eu gwrthod neu eu tynnu yn ôl;
- caewyd neu ddatgofrestrwyd 459 o wasanaethau.

Arolygu

- Gwnaethom gwblhau 4,416 o arolygiadau (gweler diagram 2 am ddadansoddiad);
- roedd hyn yn cynnwys 304 o arolygiadau ychwanegol mewn ymateb i bryderon gan bobl eraill, sy'n rhagori gan 7.4% ar ein rhaglen arolygu ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir;
- gwnaethom gynnal 319 o arolygiadau a oedd yn cynnwys o leiaf dau arolygydd;
- roedd 197 o arolygiadau y tu allan i oriau swyddfa arferol, ac roedd 20 o'r rhain ar benwythnos.

Diagram 2: Nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd gennym, 2014–15



Cwynion

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom dderbyn 40 o gwynion dan fframwaith cwynion Llywodraeth Cymru.

Awdurdodau lleol

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom gyflawni'r canlynol:

- cwblhau gwerthusiad o adran gwasanaethau cymdeithasol pob awdurdod lleol;
- arolygu trefniadau Cyngor Sir Powys ar gyfer comisiynu a chontractio gofal cartref;
- arolygu gwasanaethau cymdeithasol oedolion Cyngor Dinas Casnewydd;
- arolygu gwasanaethau cymdeithasol plant Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Fynwy;
- mynychu 36 o bwyllgorau craffu a/neu fyrdau neu baneli corfforaethol;
- cymryd camau gweithredu i ddileu ein protocol pryderon difrifol yng ngwasanaethau plant Cyngor Castell-nedd Port Talbot;
- cyhoeddi ein harolygiad o ddiogelu a chynllunio gofal i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal sy'n dangos ymddygiad agored i niwed neu beryglus ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol.

Gellir gweld copïau o'n hadroddiadau ar ein gwefan www.cssiw.org.uk/our-reports/?lang=cy

Gorfodi a gwella

Mae gan bobl hawl i ofal rhagorol. Roedd ein hadroddiadau arolygu ar gyfer 2014–15 yn cynnwys llawer o enghreifftiau o ofal da ac arwyddion cadarnhaol bod ein hymyriad cynnar i wella ansawdd yn gwneud gwahaniaeth.

Ar y cyfan, gwelsom fod y mwyafrif o wasanaethau'n perfformio'n dda, gyda 91% o'r holl wasanaethau'n bodloni'r safonau gofal fel nad oedd angen cymryd camau gorfodi.

Fodd bynnag, o'r 9% oedd yn weddill, roedd nifer fechan o hyd nad oeddent yn bodloni'r safonau, ac roedd angen cryn waith monitro a chymau gorfodi. Roedd y gwasanaethau hyn sy'n cael eu cyfrif i fod yn wasanaethau sy'n achos pryder yn cynrychioli 1% (52 o wasanaethau) o'r holl wasanaethau a arolygir gennym, a chartrefi gofal i oedolion sy'n darparu gwasanaeth nyrsio gyda nifer o ffactorau cymhleth oeddent yn bennaf. Roedd ein gwaith o fonitro'r gwasanaethau hyn yn fanwl ac yn ymatebol er mwyn sicrhau bod pobl yn ddiogel a bod risgiau'n cael eu rheoli.

Rhan allweddol o'n swyddogaeth yw helpu gwasanaethau i wella. Y llynedd gwnaethom weithio gyda 308 o wasanaethau (35 yn llai nac yn y flwyddyn flaenorol) i wneud gwelliannau parhaus.

Mae diagram tri yn nodi'r perfformiad blynyddol ar gyfer pob math o wasanaeth. Mae'n galonogol i nodi bod perfformiad ledled yr holl fathau o wasanaeth yn gyffredinol yn unol â pherfformiad y flwyddyn flaenorol.

Ar y cyfan, gwelwyd gostyngiad yn nifer yr hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio yn ystod 2014–15. Mae hyn yn dangos bod ein hymyriad cynnar a chynnydd yn y gwaith o fonitro gwasanaethau nad ydynt yn cydymffurfio er mwyn sicrhau eu bod yn gwella'n cael effaith gadarnhaol.

Yn ystod 2014–15, gwnaethom gyhoeddi 1,115 o hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â 308 o wasanaethau, o'i gymharu ag 1,303 mewn perthynas â 343 o wasanaethau yn y flwyddyn flaenorol.


Erbyn diwedd mis Mawrth 2015, roedd 329 hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio – mewn perthynas â 104 o wasanaethau – heb eu datrys. Roedd hyn yn golygu bod ymron i 70% o hysbysiadau diffyg cydymffurfio (786 hysbysiad) wedi cael sylw a bod 66% o wasanaethau (204 gwasanaeth) wedi cydymffurfio. Mae'r cam hwn tuag at gydymffurfiaeth yn cynrychioli gwelliant go iawn, y gellir ei weld, i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau.

“Nid ydym yn goddef gofal sy'n methu â bodloni safonau, ac os na fydd y gwasanaethau hynny'n gwella, ni fyddwn yn oedi cyn cymryd camau pellach. Rydym yn cynnal hawliau unigolion pan fydd gennym dystiolaeth sy'n dangos methiannau uniongyrchol sy'n arwain at ddigwyddiadau difrifol neu farwolaeth.

“Rydym yn dilyn achosion er budd y cyhoedd, hyd yn oed pan fydd cartrefi'n cau, ac rydym wedi gwneud hynny'n dilyn marwolaeth drasig bachgen ifanc oedd yn cael llety mewn cartref plant. Yn yr achos hwn, plediodd y darparwr yn euog i dorri rheoliadau oedd yn ymwneud â staffio digonol, diffyg polisïau a gweithdrefnau eglur, a methiannau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles pobl ifanc oedd yn preswyllo yn yr ysgol.”

Imelda Richardson, Prif Arolygydd yn siarad am Ysgol Pentwyn (a reolwyd gan gwmni Hillcrest) yng Nghleiro, Powys

Diagram 3: Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau a Arolygwyd yn 2014–15



Ffynhonnell – system rheoli data AGGCC

Patrymau o ddiffyg cydymffurfio yn ôl thema arolygu

Wrth gymharu meysydd i'w gwella gyda'r flwyddyn flaenorol, mae cynnydd da wedi ei wneud o ran arweinyddiaeth a rheolaeth ledled pob math o wasanaeth.

O ran gwasanaethau gofal i oedolion a phlant, roedd gwahaniaeth amlwg mewn ffactorau sy'n cyfrannu at fethiannau o ran arweinyddiaeth a rheolaeth a'r effaith ar ansawdd bywyd pobl a'u profiad o les. Roedd yr effaith fwyaf ar oedolion hŷn mewn gofal preswyl i'w weld pan geir patrwm parhaus o absenoldeb gan reolwyr cofrestredig am gyfnodau hir. Bydd newidiadau yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 – i ailfodelu rheoleiddio gwasanaethau, gwneud uwch gyfarwyddwyr yn atebol am ansawdd a chydymffurfiaeth gwasanaethau, a phenodi unigolion cyfrifol – yn sicrhau cadwyn eglur o atebolrwydd priodol o ystafell y bwrdd i'r rheng flaen.

O ran gwasanaethau gofal plant, roedd trefniadau sicrwydd o ansawdd gwael yn nodwedd amlwg o hyd. Dylai newidiadau rydym yn bwriadu eu gwneud i ffurflenni asesu gwasanaeth integredig a gofal o ansawdd y bydd yn ofynnol i ddarparwyr eu hanfon atom, ac i'w diweddarau'n rheolaidd trwy gyfrwng system ar-lein newydd, arwain at welliannau yn eu systemau ar gyfer monitro a mesur ansawdd y gofal a roddir i blant. Yna caiff effeithiolrwydd y systemau hynny eu profi mewn arolygiad.

Diagram 4: Hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio yn ôl thema

	Ansawdd yr Amgylchedd		Ansawdd Bywyd		Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth		Ansawdd Staffio		Heb eu penderfynu		Cyfanswm	
	2013–14	2014–15	2013–14	2014–15	2013–14	2014–15	2013–14	2014–15	2013–14	2014–15	2013–14	2014–15
Preswyl Oedolion	152	78	287	152	254	117	165	98	–	63	858	508
Gofal Cartref	–	–	11	40	69	46	33	29	–	24	113	139
Asiantaeth Nyrsys	–	–	–	–	–	1	–	–	–	–	–	1
Gofal Plant	35	33	21	107	210	157	38	102	–	10	304	409
Gwasanaethau Plant	2	–	4	16	21	27	1	13	–	2	28	58
	189	111	323	315	554	348	237	242	–	99	1,303	1,115

Ffynhonnell – system rheoli data AGGCC



Gwasanaethau sy'n achos pryder

Ar 1 Ebrill 2014, roedd gennym 26 gwasanaeth oedd yn dal yn achos pryder a nodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2014–15, gwnaethom asesu bod 52 o wasanaethau pellach yn wasanaethau oedd yn achos pryder. Cwblhawyd camau mewn perthynas â 57 o'r gwasanaethau hyn. Dyma enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd:

- Llwyddodd 20 o wasanaethau i gydymffurfio â'r rheoliadau a chyflawni gwelliant yn dilyn camau gweithredu gennym ni.

- Diddymwyd cofrestrriad 11 o wasanaethau gennym.
- Diddymodd 10 gwasanaeth eu cofrestrriad yn wirfoddol yn dilyn camau gweithredu gennym.
- Roedd pump yn ymwneud â gwasanaethau nad oeddent wedi cofrestru, y gwnaeth dau ohonynt gofrestru a chydymffurfio.

Ar 31 Mawrth 2015, roedd 21 gwasanaeth oedd yn achos pryder yn dal i fod yn achos pryder a naill ai roedd eu cynnydd yn cael ei adolygu neu roedd camau gorfodi pellach yn cael eu hystyried.

Diagram 5: Gwasanaethau oedd yn Achos Pryder 2014–15



Ffynhonnell – system rheoli data AGGCC

Ymateb i bryderon: defnyddio gwybodaeth gan bobl

Pobl sydd mewn cysylltiad dyddiol â gwasanaethau sydd yn y lle gorau i eirioli dros hawliau pobl i ofal o ansawdd ac i weld a chlywed ar ran y rheoleiddiwr, gan ddweud wrthym os oes ganddynt bryder am wasanaeth, gweithiwr proffesiynol, neu bobl eraill sy'n gysylltiedig â maes gofal.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynyddu ein gwaith o hyrwyddo a gwneud pobl yn ymwybodol o **sut i leisio pryder**

www.cssiw.org.uk/raiseaconcern/?skip=1&lang=cy.


Mae mwy o bobl yn ein helpu i amddiffyn eraill a gwella ansawdd gwasanaethau trwy ein hysbysu

am bryderon. Gweler Atodiad B am amlinelliaid syml o sut i leisio pryder.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 2,870 o bryderon yn 2014-15, a oedd yn gynnwys sylweddol (700 o bryderon) yn y nifer a atgyfeiriwyd atom o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd canran uchel (85.23% neu 2,446 o bryderon) o'r cyfanswm yn ymwneud â gwasanaethau i oedolion, ac roedd pryderon am ofal plant yn cyfrif am 12.3% (354) a gwasanaethau plant yn cyfrif am 2.4% (70).

O ganlyniad i bryderon a leisiwyd, gwnaethom gynnal 304 o arolygiadau ychwanegol yn bennaf mewn cartrefi gofal oedolion.

Diagram 6: Pryderon mewn gwasanaethau yn 2014–15



Ffynhonnell – system rheoli data AGGCC

Pennod Tri

Y cyd-destun ar gyfer newid – gwella ein busnes

Mae'r bennod hon yn amlinellu newidiadau i'n busnes yn wyneb deddfwriaeth heriol, gan gynnwys sut rydym yn gweithio ag eraill, newidiadau i TGCh, ein fframweithiau arolygu newydd, a'n ffocws ar hawliau dynol.

Mae wedi bod yn flwyddyn o newid dirfawr i'r sefydliad. Rydym yn paratoi ar gyfer nifer o newidiadau strategol ar draws ein holl swyddogaethau, gan gynnwys cyflwyniad cyfreithiau newydd mawr a fydd yn gofyn i ni newid y ffordd rydym yn cofrestru ac yn arolygu gwasanaethau a reoleiddir, ac i asesu sut mae awdurdodau lleol yn perfformio wrth gyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Wrth i ni ddechrau ar flwyddyn arall o newidiadau pellach, mae'n hanfodol ein bod yn cael y cydbwysedd cywir rhwng cynnal gwelliannau mewn rheoleiddio, arolygu ac adolygu a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch pa ofal diogel ac o ansawdd da sydd ar gael.

Rydym yn parhau i dargedu ein gwaith yn y manau sy'n achosi'r mwyaf o bryder i ni, gan fod yn fwy cymesur ar yr un pryd gyda gwasanaethau rydym yn gwybod eu bod yn perfformio'n dda. Rydym wedi bod yn gweithio gyda chomisiynwyr a darparwyr gwasanaeth i symud oddi wrth fodel cydymffurfio traddodiadol o reoleiddio ac arolygu at un sy'n rhoi lles y bobl sy'n derbyn y gwasanaeth wrth wraidd rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal oedolion, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol.

Hawliau dynol

Rydym yn ymroddedig i gynnwys hawliau dynol dinasyddion ym mhob agwedd ar ein gwaith ac i sicrhau bod pobl sy'n derbyn gofal yn ddiogel ac yn cael eu trin â thegwch, urddas a pharch, a bod plant yn cael y cyfle i ddatblygu. Rydym yn croesawu gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn yn hyrwyddo hawliau dynol pobl yn gadarnhaol a'i chefnogaeth i'n hymdrechion i roi hawliau dynol pobl ym mhrif ffrwd ein holl waith.

O 2016, bydd erthyglau perthnasol y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodweddion amlwg yn ein fframweithiau arolygu newydd, a byddant yn cael eu hystyried ym mhob thema fframwaith.

Bydd ein defnydd hyrwyddo a'n canllawiau i ddarparwyr yn pwysleisio arwyddocâd hawliau pobl a dyletswyddau dan Ddeddf Hawliau Dynol 2010 a Deddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau bod gan bobl fynediad at wasanaethau ac nad ydynt yn profi gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Byddwn hefyd yn annog darparwyr a chomisiynwyr i hysbysu eu polisiau hawliau dynol a chydaddoldeb yn llenyddiaeth eu gwasanaeth, eu hasesiad blynyddol, ac wrth adrodd ar berfformiad eu gwasanaeth.

Rydym yn parhau i gydweithio â chomisiynwyr sydd â rhan unigryw i'w chwarae'n hybu ac amddiffyn hawliau dynol, ac mae gennym drefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth strategol a lleol trwy gyfarfodydd rheolaidd, Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, a chydgyhyrchu cyhoeddiadau allweddol. Mae enghreifftiau ymarferol o'n cydweithio'n cynnwys:

- Gweithio gyda'r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddatblygu Fframwaith Egwyddorion Arwain i ddarparwyr gofal oedolion. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi yn haf 2016;
- Cydweithio gyda Chomisiynydd Plant newydd Cymru yn ei gwaith o wahodd barn plant o bob cwr o Gymru wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer ei gwaith – mae **'Beth Nesa'** yn enghraifft o'r cynnig gweithredol ar gyfer hawliau plant. Roeddem yn falch i gefnogi'r gwaith hwn drwy ddarparu data a'i hyrwyddo drwy ein rhwydweithiau cyfathrebu;

- Gweithio gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ymateb i'w hadolygiad o gartrefi gofal i wella lles pobl a sicrhau dull seiliedig ar hawliau o ddarparu gwasanaethau gofal y byddwn yn ei fesur trwy ein fframweithiau newydd, monitro gwybodaeth am wasanaethau'n ehangach, a hyrwyddo. Mae mesurau ymarferol i wella'r gofal mae pobl yn ei dderbyn mewn cartrefi gofal trwy atal cwympiadau, wlserau a briwiau pwyso, a sicrhau maeth a hydradu, yn flaenoriaethau allweddol yng ngwaith y Fforwm Ansawdd.

Canolbwyntio ar ganlyniadau lles pobl – y cyd-destun ar gyfer newid

Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i wella lles pobl. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi pensaernïaeth ddeddfwriaethol unigryw i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru. Ynghyd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Bil Iechyd Cyhoeddus (Cymru) a'r strategaeth Mwy na Geiriau ar gyfer cryfhau'r Gymraeg, mae datblygiadau diweddar yng Nghymru'n nodi pwrpas cyffredin: cyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaol i'w dinasyddion yn awr ac yn y dyfodol.

Bydd y fframweithiau canlyniadau newydd a dangosyddion cenedlaethol a ddatblygwyd fel rhan o'r ddeddfwriaeth yn mesur pa mor effeithiol mae gwasanaethau'n cyfrannu at les pobl.

Disgwylir i ni chwarae rhan bwysig yn asesu a mesur ansawdd ac effaith y gofal mae pobl yn ei dderbyn.

Rydym yn newid y ffordd yr ydym yn arolygu gwasanaethau i ganolbwyntio ar les a hawliau pobl (gan gynnwys eu dewis iaith) ac yn datblygu fframweithiau arolygu newydd ar draws yr holl wasanaethau yr ydym yn eu rheoleiddio a'u harolygu, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'r fframweithiau newydd yn canolbwyntio ar les pobl ac effaith y gofal maent yn ei dderbyn.

Rydym yn ymgorffori Hawliau Dynol yn ein fframweithiau ac wedi dechrau rhoi rhai o'r newidiadau ar brawf yn ystod 2015. Byddwn yn rhoi'r fframweithiau newydd ar waith yn ystod 2016.

Bydd y fframweithiau arolygu newydd yn helpu pobl sy'n defnyddio neu'n dewis gwasanaethau a chomisiynwyr awdurdodau lleol i ddeall ansawdd y gofal a ddarperir. Bydd hefyd yn galluogi darparwyr gofal i werthuso eu hunain yn well.

Y fframweithiau newydd

Mae diagramau saith, wyth a naw yn amlinellu'r tri phrif fframwaith arolygu.

Mae'r fframweithiau'n esbonio:

- beth rydym yn ei fesur dan bob thema a sut rydym yn ei fesur;
- sut mae gofal o ansawdd yn edrych a sut mae gofal annerbyniol yn edrych;
- y ffynonellau gwybodaeth a'r dulliau a ddefnyddir gennym yn ein hasesiadau;
- sut byddwn yn mesur cyfraniad y gwasanaeth at les pobl, gan gynnwys yn y gofal mae'n ei ddarparu.



Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Rhaglen y dyfodol ar gyfer adolygu gwaith arolygu ac ymgysylltu

Mae'r fframwaith newydd wedi ei lunio o amgylch chwe thema lles a safonau ansawdd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n cynrychioli lles pobl.


Mae seithfed thema'n cynnwys effeithiolrwydd arweinyddiaeth a llywodraethu i alluogi uwch swyddogion ac aelodau etholedig i graffu ar allu gwasanaethau i wella lles.

Y nod yw cryfhau a chyfundrefnu ein dull gweithredu fel bod ymgysylltu ac adolygu perfformiad yn weithgarwch parhaus ac aml yn hytrach na digwyddiad unigol.

- Bydd cyfarfodydd busnes gyda'r awdurdod lleol yn cael eu cyflenwi'n systematig i safon gyson.
- Cynhelir ymweliadau ymgysylltu ac arolygiadau â phwyslais penodol yn ogystal â'r rhaglen arolygu graidd.

- Bydd cyfraniad gan aelodau etholedig, gan gynnwys cadeiryddion craffu, yn dod yn ddigwyddiad rheolaidd. Byddwn yn cwrdd â chadeiryddion craffu bob mis Mawrth i rannu rhaglenni gwaith ac ystyried y posibilrwydd ar gyfer cydweithio a gwaith partner. Byddwn yn disgwyl i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol wahodd deiliaid portffolios yn rheolaidd i bob un neu rai o'n cyfarfodydd busnes gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn i arweinwyr gwleidyddol perthnasol yr awdurdodau lleol glywed yn uniongyrchol gan yr arolygiaeth yn dilyn derbyn adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr.
- Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i dadansoddi gydag arolygiaethau eraill yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn ac yn cael ei hystyried yn fanwl mewn seminar dadansoddi ar y cyd blynyddol.
- Bydd pob agwedd ar ein dull gweithredu'n adlewyrchu ymrwymiad i lais, rheolaeth a chanlyniadau lles y bobl sydd angen gofal a chymorth.

Diagram 7: Fframwaith Awdurdod Lleol



Fframwaith arolygu cyffredin ar gyfer gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar

Yn cydweithio'n agos gydag Estyn, rydym wedi cyd-ddatblygu fframwaith arolygu cyffredin newydd y gellir ei ddefnyddio ledled pob lleoliad nas cynhelir a ariennir i ddarparu'r cyfnod sylfaen i blant tair i bedair oed.

Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar ganlyniadau lles gyda phwyslais ar fesur yr effaith mae'r gwasanaeth yn ei chael ar ddatblygiad, lles a, ble'n berthnasol, canlyniadau addysgol y plentyn. Mae'r fframwaith newydd yn ystyried datblygiad holistaidd plant a'r angen i gwrdd ag anghenion amrywiol pob plentyn, gan gynnwys y rhai hynny sydd ar gam datblygu cynharach a'r rhai sy'n fwy abl.


Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ganolog i'r fframwaith newydd.

Ar hyn o bryd, rydym yn rhoi prawf ar y fframwaith cyffredin hwn ar gyfer arolygu ar y cyd gyda'n partner Estyn, ac rydym yn bwriadu ehangu'r dull gweithredu hwn i'r 660 o wasanaethau gofal dydd a ariennir i ddarparu addysg i blant tair a phedair oed

Estyn yr oedran ar gyfer gofal plant a chwarae a reoleiddir

Mae'r fframwaith newydd wedi cael ei fireinio ymhellach er mwyn arolygu darpariaeth i blant hŷn o wyth i 12 mlwydd oed o fis Ebrill 2016, pan fydd yr uchafswm oedran gorfodol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal plant a chwarae'n cynyddu i 12 mlwydd oed. Mae'r fframwaith hefyd wedi ei alinio â'r fframweithiau canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, ac mae'n hyrwyddo ysbryd datblygiad a dysgu plant a nodir ym mhroffil y Cyfnod Sylfaen a chwricwlwm 2015.

Diagram 8: Fframwaith arolygu ar y cyd ag Estyn



Cartrefi gofal i oedolion


Bydd rhoi prawf ar ddyfarniadau'n gynnar yn arwain y ffordd at ddod â newidiadau i rym dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i ailfodelu rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau, gan gynnwys graddau gwasanaethau. Ni fydd hyn yn gyfyngedig i gartrefi gofal, ond bydd yn ymestyn i gynnwys pob gwasanaeth gofal a chymorth gan gynnwys gofal gartref yn y gymuned, cartrefi gofal plant, ac asiantaethau maethu a mabwysiadu.

Fel yr amlinellir yn niagram naw, mae'r fframwaith newydd wedi cael ei ddatblygu i adlewyrchu gofynion ac arferion y ddeddfwriaeth newydd ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau lles, hawliau, a llais y defnyddwyr. Rydym yn addasu'r fframwaith i sicrhau y gellir ei ddefnyddio ledled pob gwasanaeth gofal a chymorth, a byddwn yn dechrau defnyddio'r fframwaith newydd wrth arolygu cartrefi gofal oedolion o haf 2016.

Mae cynllun peilot cynnar i brofi'r fframwaith gyda dyfarniadau wedi cael ei gymeradwyo'n gadarnhaol gan y sector. Mae pennu'r disgrifiadau cywir ar gyfer dyfarniadau a throthwyon sy'n amrywio o: Rhagorol/Da/Digonol i Wael yn fwy heriol pan gânt eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau cymhleth.

Rydym yn ymroddedig i gyflwyno dyfarniadau neu raddau ledled yr holl wasanaethau rydym yn eu rheoleiddio a'u hadolygu, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae dyfarniadau'n ddulliau cadarnhaol o hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae dyfarniadau'n gwella tryloywder a helpu pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r cyhoedd i gymharu ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac i wneud dewisiadau gwybodus. Bydd ymestyn dyfarniadau i berfformiad awdurdodau lleol hefyd yn rhoi tystiolaeth glir i alluogi craffu gan y cyhoedd a gan aelodau etholedig.

Diagram 9: Fframwaith arolygu cartrefi gofal i oedolion



Datblygu'r gweithlu

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein gweithlu, ac rydym yn edrych yn gyson ar ffyrdd o wella ein prosesau er mwyn i amser a sgiliau arolygwyr wrth dargedu meysydd o arolygiad gael yr effaith fwyaf posibl. Fodd bynnag, er gwaethaf galw cynyddol ar ein gwasanaeth, mae ein gweithlu o 278 o staff, gan gynnwys 150 o arolygwyr rheng flaen, arolygwyr strategaeth a rheolwyr ardal, yn parhau ar yr un lefel ag yr oedd yn 2014. Mae ein dibyniaeth ar arolygwyr y telir ffi iddynt wedi dod yn rhan annatod o'n modiwl gweithlu, ac yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ddefnyddio 10,860 o oriau â thal i gefnogi ein rhaglen arolygu.

Fel sefydliad sy'n dysgu, rydym wedi ailffurfio ein hyfforddiant i sicrhau bod ein gweithlu, yn arbennig sgiliau a chymhwysedd ein harolygwyr, yn adlewyrchu arfer cyfoes, galw sy'n newid, a'r hyn mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl ohonom. Rydym hefyd wedi bod yn buddsoddi mewn offer TGCh ac offer busnes newydd i roi gwell adnoddau i'n harolygwyr a'n timau cofrestru a gorfodi gyflawni rheoleiddio ac arolygu effeithlon.

Yn ystod y flwyddyn, mae hyfforddiant wedi canolbwyntio ar:

- sefydlu arolygwyr newydd mewn fframwaith datblygu sgiliau newydd;
- profi ein system TGCh newydd a'i rhoi ar waith;
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a sut mae'n effeithio'n uniongyrchol ar ein gwaith yn arolygu a monitro gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i wella lles pobl;
- Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid;
- Cyfweiliadau Ymchwiliol Uwch;
- y camau nesaf ar gyfer gofal lliniarol diwedd oes;
- sesiynau gwybodaeth Ffrindiau Dementia a fynychwyd gan ein holl staff;
- ymlyniad a'i rôl ym mywydau plant;
- dysgu trwy dirluniau – y blynyddoedd cynnar.



System TGCh: datblygu a gweithredu

Mae ein staff yn parhau i ddatblygu eu harbenigedd TGCh, ac mae ein system bellach yn sylfaen ar gyfer adeiladu gwasanaethau ar-lein i randdeiliaid allanol. Lansiwyd cyfnod prawf cynnar ar gyfer y gwasanaethau datblygol hyn i roi dewis dwyieithog ar-lein i warchodwyr plant oedd am ymateb i'r ymarfer ymestyn oedran gofal plant.

Bydd ein prosiect TGCh yn parhau yn ystod 2016 gyda'r nod o ymestyn cwmphas a chynnwys y gwasanaethau sydd ar gael trwy 'AGGCC Ar-lein'. Gobeithir y bydd hyn yn cynnwys ceisiadau newydd am gofrestrriad gan ddarparwyr posibl, a gwasanaethau i ddarparwyr cofrestredig, fel hunanasesu a hysbysiadau ar-lein. Bydd hyn yn ein galluogi i gefnogi: rheoli gwybodaeth ac uniondeb data'n well; cyflenwi gwasanaethau ar-lein; rhannu gwybodaeth yn well; gwella effeithlonrwydd sefydliadol a lleihau costau.

Cyfathrebu ac ymgysylltu

Gwnaethom gryfhau ein cyfathrebu yn 2013–14 ac ail-lansio ein gwefan. Yn ystod 2014–15 gwnaethom gryfhau ein sianelau eraill i wella ein cyfathrebu â dinasyddion a darparwyr gwasanaethau gofal ymhellach:

- Gwnaethom ddatblygu ein cylchlythyr dwyieithog misol sy'n cael ei anfon at danysgrifwyr (gall unrhyw un danysgrifio ar ein gwefan) a darparwyr gofal bob mis.
- Gwnaethom lansio ein sianel YouTube www.youtube.com/cssiw ac rydym wedi creu cyfres o fideos dwyieithog i helpu i gyfathrebu ein neges mewn ffordd eglur a rhwydd.
- Gwnaethom fynychu 32 digwyddiad gan gynnwys y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol am y tro cyntaf.
- Gwnaethom gynyddu nifer ymweliadau ymgysylltu ein Prif Arolygydd, a gwnaeth Imelda ymweld â 28 gwasanaeth.
- Gwnaethom gynyddu ein presenoldeb ar y cyfryngau yng Nghymru ac ymddangos mewn 123 o eitemau newyddion yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys papurau newydd, darlledu ac ar-lein.

- Ymwelodd 171,216 o bobl â'n gwefan.
- Derbyniwyd 389,096 o ymweliadau gan ein sianelau Twitter Cymraeg a Saesneg.

Roedd lansio ein hymgyrch 'Pryderon' yn ddigwyddiad mawr i ni. Gwnaethom ddefnyddio nifer o'n sianelau, gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau partner a chyrff ambarél i annog aelodau o'r cyhoedd i weithredu fel 'ein llygaid a'n clustiau'. Gwelsom hwn fel cyflawniad anferth – gwnaeth gweithio gyda'r cyhoedd yn rhagweithiol am y tro cyntaf yn y modd hwn ein helpu i wella ansawdd gofal ymhellach i bobl Cymru.

Gweithio gydag eraill

Fforwm Ansawdd

Rydym wedi datblygu Fforwm Ansawdd, sy'n grŵp cydweithredol o arweinwyr yn y gymuned gofal iechyd, gan gynnwys comisiynwyr iechyd a gofal, darparwyr gofal yn y cartref, a darparwyr cartrefi gofal. Ar y cyd ag AGIC a Chyngor Gofal Cymru fel rheoleiddwyr gofal, rydym wedi datblygu fframwaith unedig o gymorth ymarferol i yrru gwelliant ar gyfer gofal integredig o ansawdd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Nod y fforwm yw hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth o beth yw ystyr 'ansawdd' a disgwyliadau pob partner trwy drefniant gweithredol sy'n sicrhau dehongliad cyson o 'ansawdd' yn eu swyddogaethau unigol ac fel fforwm. Nod canolog y fforwm yw nodi a dadansoddi'r sail tystiolaeth, a chymeradwyo'r arfer gorau y gellir ei roi ar bawf i weld pa effaith a dylanwad mae wedi eu cael ar ansawdd cyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gall y gwaith cydweithredol hwn gymeradwyo a hyrwyddo arfer gorau er mwyn gwella ansawdd gofal a lles.

Partneriaid archwilio, arolygu a rheoleiddio

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gydag archwilwyr, rheolwyr ac arolygiaethau eraill yng Nghymru a'r DU i sicrhau bod ein gwaith yn gydgyssylltiedig, effeithlon ac effeithiol.

Dyma restr o'r gwaith a ymgwymerwyd gyda'n partneriaid yn ystod 2014-15.

- Adolygiad cenedlaethol ar y cyd o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru, a'n hadroddiad monitro ar y cyd blyneddol ar gyfer 2013–14 gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
- Gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i ymchwilio a yw awdurdodau lleol yn gweithio'n effeithiol i gefnogi annibyniaeth pobl hŷn.
- Arolygiad llawn ar y cyd o waith troseddau ieuencid yng Nghasnewydd, dan arweiniad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.
- Datblygu system gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer rhannu gwybodaeth i gefnogi cynllun gofal plant di-dreth newydd y DU er mwyn i rieni sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chwarae a reoleiddir allu elwa ar gymelliadau treth a fydd ar gael o fis Medi 2016.
- Gwella ystod ac uniondeb y wybodaeth rydym yn ei rhannu â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i'w cynorthwyo i gynnig cyngor a gwybodaeth amserol i rieni a theuluoedd am ddarpariaeth ac ansawdd gofal plant yn eu hardal.
- Rydym yn cryfhau ein cydweithrediad gyda Chyngor Gofal Cymru y tu hwnt i rannu gwybodaeth i edrych ar ffyrdd mwy effeithiol ac arloesol o integreiddio swyddogaethau busnes a TGCh. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (rhan 9) yn ymwneud â dyletswyddau cydweithio newydd, defnyddio cofrestr unigol i reolwyr (a gynhelir gan y corff newydd Gofal Cymdeithasol Gymru), a newidiadau i fodel rheoleiddio ac arolygu sy'n seiliedig ar wasanaeth, sy'n rhoi cyfle i'r ddau reoleiddiwr ddatblygu trefniadau ar y cyd.

Cryfhau swyddogaeth adolygu

Gweithgor Diwygio Llywodraeth Leol Arolygu Cymru

Rydym yn croesawu'r cynigion ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru *Grym i Bobl Leol* i gryfhau'r rhyngwyneb rhwng adolygiadau mewnol ac allanol o berfformiad awdurdodau lleol.

Roedd y Papur Gwyn Grym i Bobl Leol yn cynnig y dylai'r tri phrif gorff arolygu allanol gydweithio i lywio dealltwriaeth gyffredin o 'iechyd' corfforaethol pob awdurdod lleol.

Rydym wedi sefydlu trefniadau i ymgysylltu â dinasyddion a chefnogi craffu a democratiaeth leol trwy fynychu cyfarfodydd craffu a phaneli lleol. Gwnaethom fynychu dros 36 o sesiynau yn ystod 2014-15, gan adrodd ar ganfyddiadau ein gwaith arolygu ac adolygu o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, ynghyd â'r prosesau monitro ac asesu blyneddol a gynhaliwyd gennym. Mae'r Papur Gwyn yn rhoi enghreifftiau o'n gwaith yn y maes hwn.

Mae'r cynigion yn nodi disgwyliad clir ledled awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau cydraddoldeb rhwng craffu mewnol ac allanol gan gyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio. Rydym wedi bod yn gweithio o fewn Arolygu Cymru i sefydlu fframwaith cydweithredol i rannu ac adolygu tystiolaeth a gwybodaeth a gesglir gan bob partner, ac i werthuso a oes angen ffocws newydd neu wahanol ar gynlluniau adolygu i bob awdurdod. Mae pwyllgorau craffu'n chwarae rhan hanfodol o ran atebolrwydd awdurdodau lleol, a byddem yn disgwyl iddynt fod yn rhan o asesiadau awdurdodau lleol eu hunain o'u perfformiad a'u rhagolygon.

Rydym wedi ail-lunio ein gwaith o adolygu, ymgysylltu ac arolygu perfformiad awdurdodau lleol i gyd-fynd â fframwaith cydweithredol Arolygu Cymru a rhoi pwyslais o'r newydd ar ymgysylltu â phobl ac aelodau etholedig. Bydd hyn yn darparu tystiolaeth gyfoethog ar gyfer yr asesiad corfforaethol sydd i'w gyflawni gan Arolygu Cymru.

Ein cyfraniad i raglen ddeddfwriaethol a diwygiadau ac adolygiadau polisi Llywodraeth Cymru

Mae maes cyfraith a pholisi yng Nghymru'n destun diwygiad mawr sy'n newid darpariaeth, craffu, rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol a llywodraeth leol yng Nghymru'n sylfaenol. Mae newidiadau mawr yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn ailwampio ein rolau, swyddogaethau a'n hatebolrwydd, a'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yn y dyfodol. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn hyrwyddo a galluogi uno awdurdodau lleol yn wirfoddol o fis Ebrill 2018 ymlaen, ac mae cynigion yn y Papur Gwyrdd – *Ein Hiechyd, Ein Gwasanaethau Iechyd* – i wella annibyniaeth arolygiaethau ac ymchwilio uno rhyngom ni ac AGIC. Bydd gan hyn oblygiadau mawr i'n sefydliad, ein model busnes, a'n gwaith ag awdurdodau lleol, partneriaid iechyd a darparwyr gwasanaeth.

Bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd angen cryn waith ailstrwythuro ar ein busnes, ein gweithlu, ein strwythurau sefydliadol, a'n perthynas â darparwyr a dinasyddion. Mae cyflymder a graddfa'r newidiadau hyn yn golygu heriau a chyfleoedd, ac rydym wedi gwneud paratodau cynnar i ailfodelu ein systemau rheoleiddio ac arolygu i roi mwya o bwyslais ar ganlyniadau lles pobl.

Mae ymateb i'r newidiadau hyn a dadansoddi eu heffaith – gan gynnwys darparu cyngor a thystiolaeth broffesiynol i bwyllgorau craffu Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar y diwygiadau hyn – wedi bod yn rhan bwysig o'n gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi ymdrechu i sicrhau bod ein cyfraniadau wedi bod yn wrthrychol, cymesur, moesol, ac wedi'u cefnogi gan dystiolaeth gadarn yr ydym wedi ei chasglu trwy ein gwaith a phrofiad pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Rydym yn cefnogi egwyddorion Cod y Rheoleiddwyr i leihau'r baich rheoleiddiol a thargedu gweithgarwch rheoleiddio trwy adeiladu perthnasau adeiladol gyda chomisiynwyr, darparwyr a phobl sy'n derbyn

gofal. Mae'r gwerthoedd craidd hyn wedi llywio ein cyfraniadau. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Cefnogi grwpiau technegol rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r rheoliadau, codau ymarfer a chanllawiau a fydd yn cael eu cyflwyno o fis Ebrill 2016 wrth roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Mae ein cyfraniadau wedi bod mor drwyadl â phosibl i sicrhau bod modelau newydd o ofal yn amddiffyn a bodloni anghenion gofal y grwpiau mwyaf agored i niwed. Ein neges ganolog oedd pwysigrwydd ffyrdd eraill dros dro a chynaliadwy o roi cymorth i bobl a effeithir gan newidiadau mewn trothwyon cymhwysedd, ac adeiladu gallu mewn cymunedau i alluogi pobl i wella eu lles.
- Darparu tystiolaeth annibynnol ysgrifenedig ac ar lafar i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth iddynt graffu ar egwyddorion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Rydym wedi ceisio sicrhau bod gwersi a ddysgwyd gan y gorffennol a diffygion y system bresennol wedi llywio'r fframwaith rheoleiddio gwasanaethau newydd a bod atebolrwydd am ddiogelwch ac ansawdd gofal pobl yn gadarn ar lefel gorfforaethol. Bydd pwerau newydd i'n galluogi i oruchwylio a llywio'r farchnad gofal cymdeithasol, a chyflwyno graddau ansawdd ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir ac awdurdodau lleol, yn cryfhau ein swyddogaeth i yrru gwell canlyniadau i bobl ledled yr holl system o ofal a chymorth.
- Darparu cyngor arbenigol i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i lywio ei benderfyniad i beidio ag ymestyn rheoleiddio gofal ychwanegol. Rydym yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr ac arloesol tai gofal ychwanegol gydag adnoddau ar y safle i gefnogi lles pobl. Gyda chefnogaeth tystiolaeth, fe gadarnhaodd ein cyngor fod y gwaith presennol o reoleiddio gofal cartref a'r cynllun Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn sicrhau diogelwch pobl agored i niwed sy'n byw'n annibynnol yn eu cartref gofal ychwanegol – ac nad oedd angen mwya o reoleiddio.

Yn ystod yr un cyfnod, rydym wedi bod yn cynghori a chefnogi diwygiadau'r Gweinidog dros Gymunedau a Threchu Tlodi i reoleiddio a chofrestru gofal plant i sicrhau cysondeb ac addasrwydd o ran ansawdd rheoleiddio a darpariaeth gofal plant a chwarae i blant hyd at 12 oed. Bydd y newid yn effeithio ar amodau cofrestriad 4,405 o ddarparwyr ac yn cynyddu ystod a lefel darpariaeth newydd, yn benodol chwarae mynediad agored a chwarae cymunedol i blant hŷn, a fydd yn cael eu rheoleiddio gennym o fis Ebrill 2016. Mae'r newidiadau hyn yn golygu heriau a chyfleoedd i'n gwaith a sgiliau ein harolygwyr yn arolygu a mesur canlyniadau lles i blant hŷn rhwng wyth oed a 12 oed. Mae pennod pump yn rhoi mwy o wybodaeth am y gwaith hwn a diwygiadau ehangach mewn gwasanaethau plant.



Pennod Pedwar

Golwg fanylach ar awdurdodau lleol

Mae'r bennod hon yn cael ei llywio gan ein hymgysylltiad a'n gwerthusiad parhaus o berfformiad awdurdodau lleol, arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn 2014–15, a'n gwerthusiad o adroddiadau blynyddol cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol.

Yn ystod 2014–15:

- Asesodd awdurdodau lleol anghenion 83,100 o oedolion yng Nghymru, gostyngiad o 7% ar y flwyddyn flaenorol.
- Derbyniodd 73,900 o oedolion wasanaethau, gyda 82% yn byw yn y gymuned ac 18% yn byw mewn cartrefi gofal.
- Roedd 22,157 o'r bobl hyn rhwng 18 a 64 oed; 28,975 rhwng 65 a 84 oed, a 22,768 dros 85 oed.
- Darparwyd 13.2 miliwn o oriau gofal yn y cartref gan awdurdodau lleol, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd bron i 23,000 o oedolion yn derbyn gofal yn y cartref, gostyngiad bychan ar y flwyddyn flaenorol.

Ffynhonnell: Datganiad Ystadegol: Asesiadau a Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion 2014–15 – Datganiad ystadegol diwygiedig 12 Ionawr 2016

Mae'n gadarnhaol nodi am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd nad oes unrhyw gynghorau yn destun i'n Protocol Pryderon Difrifol ac oherwydd i ni adnabod ac ymyrryd yn gynnar gyda'r sawl lle'r oedd pryderon yn codi i wneud gwelliannau amserol, llwyddwyd i osgoi'r angen i gynyddu ein monitro.

Roedd ein hasesiad yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth awdurdodau lleol a'u cadernid wrth fodloni galw cynyddol mewn cyfnod o lynder ac ansicrwydd o ran diwygio ac uno llywodraeth leol. Ar yr un pryd, mae awdurdodau wedi bod yn gweddnewid eu gwasanaethau i fodloni dyletswyddau ac amcanion newydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yr hyn y gwnaethom ei ganfod

Roedd y gwasanaethau cymdeithasol lleol oedd yn perfformio orau yn meddu ar y nodweddion canlynol:

- cefnogaeth gorfforaethol gref;
- cefnogaeth wleidyddol gref wrth groesawu newid;
- goruchwyllo a chraffu effeithiol;
- uwch reolaeth sefydlog, yn craffu ar gyflwyniad y rheng flaen;
- ffocws ar ddull system gyfan i gyflawni gwelliant;
- partneriaethau adeiladol cryf, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau gofal annibynnol;
- parodrwydd i arloesi a dysgu o'r arfer gorau;
- buddsoddiad parhaus mewn hyfforddi a datblygu eu staff.

Roedd awdurdodau a oedd yn llai llwyddiannus yn meddu ar y nodweddion canlynol:

- diffyg gweledigaeth;
- perthynas cyd-fwriadol rhwng pwyllgorau craffu a swyddogion;
- parodrwydd i dderbyn y status quo a pharhau â phatrymau gwael o ddarparu gofal a gwasanaethau;
- ymgysylltiad gwael gyda staff;
- trefniadau cynllunio a chomisiynu gwael;
- lefelau uchel o salwch staff a throsiant.

Roedd effaith pwysau ariannol yn gymysg. Er bod gan lawer gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol wedi'u diogelu, mae eraill wedi gorfod cyflawni camau effeithlonrwydd arbedion sylweddol yn narpariaeth gofal cymdeithasol.

Gwasanaethau oedolion

Gwybodaeth, cyngor a chymorth

Roedd y mwyafrif wedi ailstrwythuro eu systemau gwybodaeth, cyngor ac atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau oedolion. Roedd y rhan fwyaf wedi symud i 'un pwynt mynediad' yn ddiweddar, a nifer ohonynt wedi'u hintegreiddio neu eu cydleoli gyda gwasanaethau iechyd a gwasanaethau tai. Roedd trefniadau gwahanol ar waith ledled Cymru yn dibynnu ar ffactorau lleol, gan gynnwys perthynas ag iechyd ac argaeledd safleoedd ar gyfer dod â gwasanaethau at ei gilydd.

Trefniadau diogelu

Roedd yn amlwg bod trefniadau ar gyfer diogelu oedolion yn newid, ac fe sefydlodd y rhan fwyaf o ardaloedd fyrdau rhanbarthol. Roedd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol systemau cadarn ar waith, er bod angen atgyfnerthu trefniadau diogelu mewn lleiafrif o awdurdodau lleol.

Fel yr adroddwyd yn ein hadroddiad monitro blynyddol ar Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid³, bu cynnydd gan 16 gwaith mewn ceisiadau o ganlyniad i ddyfarniad Cheshire West. Mae'r lefel o gynnydd a'r heriau mae hyn yn eu cyflwyno i awdurdodau lleol yn drawiadol.

Gofal yn y gymuned a throthwyon cymhwyster

Er gwaethaf poblogaeth gynyddol, roedd gostyngiad sylweddol yng nghyfran y bobl hŷn dros 65 oed sy'n derbyn gofal a chymorth yn y gymuned i bob mil o'r boblogaeth; gostyngodd y gyfran o 74.5 yn 2013–14 i 67.3 yn 2014–15. Mae'r wybodaeth yn awgrymu bod awdurdodau wedi cyflwyno trothwyon cymhwyster uwch.

Ar y llaw arall, ni fu llawer o newid yn y cyfraddau cymorth ar gyfer oedolion iau 18-64 mlwydd oed. Mae'n awgrymu bod mwy o ddefnydd wedi cael ei wneud o wasanaethau cymunedol, nad ydynt yn statudol, er nad yw data ar hyn yn hawdd i'w casglu.



³ <http://cssiw.org.uk/our-reports/national-thematic-report/2016/160113-dols-annual-report-2014-15/?skip=1&lang=cy>

Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau ganlyniadau llwyddiannus yn y gwasanaethau ailalluogi, gyda llawer o bobl nad oes angen cymorth ychwanegol arnynt ar ôl ailalluogi. Fodd bynnag, mae'r ffigurau yn amrywio.

Cwmpodd cyfran y bobl dros 65 oed i bob mil o'r boblogaeth a ariennir i fyw mewn cartrefi gofal yng Nghymru hefyd o 19.8 i 18.9. Nodwyd cynnydd yn nifer y gwasanaethau gofal ychwanegol newydd. Roedd gan rai o'r awdurdodau lleol gyfran uwch na'r cyfartaledd o oedolion dros 65 oed yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl, a dylai'r mannau gofal ychwanegol hyn helpu i hyrwyddo annibyniaeth a darparu dewis amgen yn lle gofal preswyl. Roedd hefyd yn galonogol i nodi bod 4,463 o bobl wedi defnyddio taliadau uniongyrchol – cynnydd o 8% ar y flwyddyn flaenorol.

Un o heriau adrodd ar weithgareddau mewn perthynas â gwasanaethau gofal oedolion yw bod llawer o wasanaethau gofal cymunedol a gofal yn y cartref hefyd yn cael eu comisiynu gan y GIG, ac nid yw'r data yn cael eu coladu ochr yn ochr â gweithgarwch awdurdodau lleol. Y canlyniad yw mai darlun rhannol a ddaw i'r amlwg ac sydd wedi'i gyflwyno uchod. Yr ydym yn ymwybodol bod byrddau iechyd yn comisiynu gwasanaethau gofal cartref yn gynyddol ac yn comisiynu nifer sylweddol iawn o welyau mewn cartrefi nyrsio. Credwn fod achos cryf ar gyfer casglu a chyfuno'r holl ddata fel y gellir cynhyrchu darlun integredig ar gyfer Cymru.

Mae perfformiad o ran adolygu cynlluniau gofal ar gyfer pobl hŷn ar amser yn amrywiol, gyda chyfartaledd Cymru yn 80%. Tanlinellwyd pwysigrwydd adolygiadau prydlon o ansawdd da gan y canlyniadau a gyflawnwyd ym Mro Morgannwg lle roedd ffocws ar wella ansawdd adolygiadau wedi'i briodoli'n uniongyrchol i ostyngiad sylweddol yn y defnydd o ofal preswyl.

Er bod gostyngiad wedi bod yn gyffredinol yn y gyfradd o oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty, roedd y gyfradd yn amrywiol, gyda rhai awdurdodau lleol yn sicrhau gostyngiadau sylweddol a phump yn profi cynnydd sylweddol. Yn y rhai lle'r oedd cynnydd nodedig, roedd problemau capasiti, gofal cartref ac adnoddau cymunedol i'w gweld mewn pedwar, a swyddi gwag a salwch mewn timau gwaith cymdeithasol yn broblemau yn y llall. Lle cyflawnodd

awdurdodau lleol ostyngiadau amlwg mewn oedi wrth drosglwyddo gofal, roedd hyn o ganlyniad i fentrau lleol a gyflwynwyd. Roedd y rhain yn cynnwys sefydlu canolbwynt gofal cymdeithasol mewn ysbyty, datblygu gwelyau camu i fyny a chamu i lawr, y defnydd o dele-ofal, a phenodi nyrsys rhyddhau. Ym Mro Morgannwg cafodd llwybr rhyddhau integredig llawn ei sefydlu. Mae awdurdodau lleol eraill wedi creu timau gofal cartref ymateb cyflym. Roedd Sir y Fflint yn treialu gwasanaeth ymateb yn y nos.

Gofalwyr

Roedd tystiolaeth o ddulliau arloesol i gynyddu nifer y gofalwyr oedd yn cael eu hasesu ac yn cael cynnig gwasanaethau. Roedd y rhain yn cynnwys hyrwyddwyr gofalwyr a 'chysylltwyr gofalwyr' wedi'u lleoli mewn timau lleol. Roedd gan Sir Benfro strategaeth integredig gyda'r bwrdd iechyd, ac mae 15 o feddygfeydd wedi ymrwymo i fod yn 'Fuddsoddwyr mewn Gofalwyr'.

Gwasanaethau plant

Gwasanaethau ataliol

Er gwaethaf amrywiaeth a chwmpas trawiadol y cymorth cynnar a'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael i blant a theuluoedd (sy'n cael llawer o gefnogaeth gan gynlluniau Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf), roedd y rhan fwyaf o awdurdodau wedi profi cynnydd yn nifer y cyfeiriadau i'r gwasanaethau plant. Mae'r galw am wasanaethau statudol wedi cynyddu ychydig – o 35,285 yn 2013–14 i 35,423 yn 2014–15 – er y bu tuedd ar i lawr yn y blynyddoedd diweddar, ac roedd y trefniadau ar gyfer cydgysylltu a darparu gwasanaethau ataliol yn amrywio ledled Cymru.

Roedd awdurdodau lleol yn dibynnu'n fawr ar gynlluniau a ariennir gan grantiau, ac mae pryder ynghylch eu cynaliadwyedd tymor hir. Mae hyn yn gwneud comisiynu yn anodd oherwydd bod darparwyr yn y sector annibynnol a'r trydydd sector yn llai parod ac abl i ymrwymo i gynlluniau tymor hir, ac mae gan staff maen nhw'n eu recriwtio lai o ddiogelwch.

Diogelu

Comisiynwyd Gweithredu dros Blant ac NSPCC Cymru gan Lywodraeth Cymru i gyflawni Prosiect Esgeulustod Cymru dros ddwy flynedd (2013–15). Roedd y prosiect yn dwyn partneriaid allweddol

ledled Cymru ynghyd i gydweithio a chanfod meysydd allweddol ar gyfer gweithredu ar esgeuluso plant. Nod y prosiect oedd gwella ymatebion a gwasanaethau amlasiantaethol, a sicrhau bod plant a esgeuluswyd a'u teuluoedd yn cael cymorth cyn gynted â phosibl.

Gostyngodd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod 2014-15 o 6% i 2,936. Gwelodd llawer o awdurdodau lleol ostyngiad, ac mae angen monitro newidiadau sylweddol o'r fath yn ofalus a deall y rhesymau yn iawn. Yn achos un cyngor arall, cynhaliodd is-grŵp ansawdd y bwrdd diogelu adolygiad o achosion a oedd wedi'u dadgofrestru, ac ni allai fod yn sicr bod penderfyniadau i ddadgofrestru plant wedi'u gwneud ar sail asesiadau cadarn. Roedd yn amlwg o'n gwerthusiadau bod nifer cynyddol o gynghorau ledled Cymru wedi mabwysiadu model 'Arwyddion Diogelwch' neu'n cyflwyno model o'r fath: dull yn seiliedig ar gryfderau, ac wedi'i drefnu er mwyn diogelwch, o waith achos amddiffyn plant sy'n tarddu o Awstralia.

Plant sy'n derbyn gofal

Ar ôl nifer o flynyddoedd gyda niferoedd cynyddol o blant mewn gofal, roedd gostyngiad o 2.2% yn 2014-15, gyda 5,617 o blant (89 fesul 10,000 o'r boblogaeth o'i gymharu â 66 fesul 10,000 yn Lloegr) yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2015. Fodd bynnag, y rheswm dros y gostyngiad hwn oedd bod nifer fwy o blant yn gadael gofal (134 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol) yn hytrach na bod y niferoedd o blant oedd yn cael eu cymryd i ofal yn lleihau. Er i ni ganfod tystiolaeth bod llawer o awdurdodau wedi atgyfnerthu eu cefnogaeth ymyrraeth gynnar i blant mewn angen, mae'r gwahaniaeth mewn niferoedd a chyfraddau rhwng awdurdodau tebyg yn awgrymu bod angen i rai awdurdodau archwilio eu trothwyon ar gyfer plant sy'n dod i ofal. Gwnaed ymchwil gan Cordis Bright⁴ ar y rhesymau pam fod gan awdurdodau lleol gyda lefelau tebyg o angen boblogaethau gwahanol o blant yn derbyn gofal, a daeth i'r casgliad fod y rhyngweithio cymhleth o dueddiadau demograffig ac economaidd-gymdeithasol yn ogystal â ffactorau yn gysylltiedig â'r ffordd mae'r ardal leol yn arwain, yn trefnu ac yn defnyddio ei gwasanaethau ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd yn ystyriaeth yma.

Sefydlogrwydd lleoliadau a pherfformiad

Roedd 512 o blant yn derbyn gofal ym Mawrth 2015 wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn, sydd yn gyfradd o 9% o'i gymharu â 8% y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn awgrymu bod angen rhoi sylw i sefydlogrwydd lleoliadau. Mae nifer o awdurdodau lleol yn cydnabod yr angen i gynyddu ystod a nifer y lleoliadau maeth, yn enwedig ar gyfer plant ag anghenion mwy cymhleth.

Roedd sicrhau gofal parhaol yn gynnar i blant mewn gofal yn flaenoriaeth i gynghorau. Cynyddodd nifer y plant a fabwysiadwyd yn 2014-15 o 38 (11%). Roedd ymrwymiad cryf ar draws y cynghorau i gefnogi ac ysgogi datblygiad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, ond bydd angen cydweithrediad parhaus a chryn ymdrech i wireddu potensial y trefniadau newydd. Mae'r cynnydd yn nifer y plant a fabwysiadwyd yn gadarnhaol, ond yr her i awdurdodau a'u partneriaid fydd i sicrhau bod cefnogaeth yn dilyn mabwysiadu prydlon ac effeithiol i blant a'r teuluoedd sy'n eu mabwysiadu. Mae pennod pump yn rhoi mwy o wybodaeth ar ein hadolygiad cenedlaethol o blant mewn gofal.

Roedd awdurdodau lleol yn parhau i fod mewn cysylltiad â 93% o'r rhai sy'n gadael eu gofal, ac roedd 59% o bobl ifanc 19 mlwydd oed sy'n gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth o'i gymharu â 55% y flwyddyn flaenorol.

Arweinyddiaeth a llywodraethu

Roedd yn ymddangos bod awdurdodau lleol yn gwneud camau sylweddol tuag at roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 ar waith, yn enwedig mewn perthynas â hyfforddiant staff. Fodd bynnag, roedd angen i awdurdodau lleol sicrhau digon o gapasiti yn y gymuned ar lefel ataliol ar gyfer y gefnogaeth y mae pobl ei hangen yn ystod y cyfnod pontio o ofal ffurfiol. Canfuom y canlynol:

- Bu gostyngiadau mewn cyllid i fudiadau gwirfoddol, sydd o'r herwydd yn lleihau ystod y cymorth cymunedol ar gael i gefnogi pobl a'u hatal rhag dod yn ddibynol ar drefniadau gofal ffurfiol.
- Roedd integreiddio gyda gwasanaethau ieuchyd yn amrywiol iawn ac yn peri her oherwydd ffactorau fel gwahanol flaenoriaethau, diwylliannau, meintiau ac adnoddau'r ddau sefydliad.

⁴ www.ssiacymru.org.uk/home.php?page_id=8745

- Roedd cydleoli gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu buddiannau i bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaethau a chyfleoedd am fwy o effeithlonrwydd. Fodd bynnag, bydd y posibilrwydd o droi gwasanaethau sydd wedi'u cydleoli'n wasanaethau integredig yn anodd i'w wireddu, ac mae'n gofyn am weledigaeth glir o sut y dylai gwasanaethau weithredu ynghyd â gweithlu sydd yn llawer mwy hyblyg.
- Prin oedd y dystiolaeth am argaeledd mentrau cymdeithasol na datblygiad o'r rhain gan awdurdodau lleol.

Gweithlu

Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau cyson, dibynadwy. Wynebodd rhai cynghorau heriau gwirioneddol yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau oedolion, tra ei bod yn ymddangos bod gan gynghorau eraill weithluoedd cadarn a gwydn. Llwyddodd rhai cynghorau i sefydlogi eu gweithlu gofal plant rheng flaen ar ôl cyfnodau o anhawster sylweddol.

Roedd yn ymddangos bod eglurder pwrpas, llwythi gwaith hylaw, a chymorth rheoli llinell o ansawdd da yn nodweddion o lwyddiant.

Er gwaethaf lleihau adnoddau, parhaodd awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn hyfforddiant a datblygu'r gweithlu. Bydd integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gofyn am weithlu hyblyg gyda chysylltedd agosach rhwng y rhai hynny sy'n cyflwyno cymorth cynnar a gwasanaethau ataliol a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau statudol.

Roedd llawer yn adolygu maint y timau uwch reolwyr, ac yn eu lleihau. Bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau eu hunain bod ganddynt reolwyr digon medrus a phrofiadol sy'n gallu darparu arweinyddiaeth broffesiynol a rheoli gwasanaethau cymdeithasol yn ystod cyfnod o newid digynsail.

Rhanbartholi

Roedd nifer o enghreifftiau ledled Cymru lle y gweithiodd awdurdodau lleol gyda'i gilydd i gomisiynu a darparu gwasanaethau yn rhanbarthol. Adroddodd awdurdodau lleol

fod tystiolaeth o wasanaethau rhanbarthol yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau o ran ansawdd ac argaeledd gwasanaethau. Mae'n hollbwysig bod y cynnydd a'r momentwm o ran comisiynu a chyflenwi gwasanaethau rhanbarthol yn cael eu cynnal, yn arbennig yn ystod cyfnod o ansicrwydd o ran ffurf a threfn awdurdodau lleol yng Nghymru yn y dyfodol.

Adroddodd cyfarwyddwyr fod cynnydd da yn cael ei wneud i sefydlu byrddau rhanbarthol diogelu plant ac oedolion, er bod trefniadau lleol hefyd wedi'u datblygu mewn rhai ardaloedd lleol i gael trosolwg lleol ac i ganolbwyntio ar effeithiolrwydd y trefniadau diogelu. Wrth i'r byrddau rhanbarthol ddatblygu'n sefydledig, bydd angen i gynghorau sicrhau eu hunain eu bod yn darparu digon o drosolwg a chraffu ar faterion diogelu yn eu hardal.

Comisiynu

Mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y bobl ag anghenion gofal a chefnogaeth sy'n dymuno byw'n annibynnol, a'r cynnydd yn nifer y bobl hyn gydag anghenion cymhleth, mae comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn dod yn fwy cymhleth fyth. Dim ond pan fydd cynghorau yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu strategaethau comisiynu clir a chydlynol a'u rhoi ar waith y gellir comisiynu'n effeithiol, yn enwedig gyda darparwyr iechyd, darparwyr tai a darparwyr annibynnol. Mae ar gynghorau angen comisiynwyr gyda sgiliau a phrofiad addas sy'n meddu ar ddealltwriaeth o gymhlethdod y farchnad gofal cymdeithasol a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer comisiynu gwasanaethau. Gwelsom yn 2014-15 fod pobl agored i niwed wedi'u gosod mewn perygl lle'r oedd trefniadau comisiynu yn aneffeithiol ac wedi'u rheoli'n wael.

Arolygu i Wella: Castell-nedd Port Talbot – Cyflawni gwelliant yn eu gwasanaethau cymdeithasol plant

Amlygwyd pryderon difrifol am berfformiad gwasanaethau plant Castell-nedd Port Talbot yn gyntaf yn ein harolygiad yn 2010. Roedd yn amlwg bod oedi sylweddol wrth ymateb i atgyfeiriadau diogelu, asesiadau

annigonol, a phroses wan ar gyfer gwneud penderfyniadau. O ganlyniad, rhoddwyd plant agored i niwed mewn perygl difrifol. Roedd staff rheng flaen yn amlwg o dan straen, yn teimlo nad oedd ganddynt gefnogaeth, ac yn ceisio delio gyda llawer iawn o achosion cymhleth heb gyfarwyddyd clir. O ganlyniad, cynyddodd trosiant a salwch staff, a wnaeth yn eu tro beri i broblemau waethygu.

Gwnaethom ofyn am welliant gan yr awdurdod, gan gynnig cyngor i wneud hyn, ond ni wnaeth y sefyllfa wella. Dangosodd arolygiadau monitro pellach lefelau cynyddol o bryder. Yn 2012, daeth yr arolygiad i'r casgliad canlynol: 'Mae diffyg cyfeiriad yn y gwasanaeth ac mae angen i staff gael arweiniad clir a chymorth i hyrwyddo lefelau cyson o arfer da.'

O ganlyniad, penderfynodd y Prif Arolygydd osod y cyngor o dan y Protocol Pryderon Difrifol. Yn ôl y protocol, roedd yn ofynnol i'r cyngor gynhyrchu cynllun gwella sy'n destun gwaith craffu a monitro parhaus gennym, ac ymrwymo iddo.

Cymerodd ein prif weithredwr ac arweinydd y cyngor gamau pendant. Cyflwynwyd uwch dîm newydd, ac fe roddodd gynllun clir, fesul cam ar waith a oedd yn seiliedig ar y dadansoddiad a'r argymhellion a wnaed gennym.

Wrth wraidd y cynllun oedd:

- dull 'yn ôl i'r hanfodion' o reoli gwaith rheng flaen wrth amddiffyn plant ac asesu risg. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno teclynau gwneud penderfyniadau;
- ffocws ar les staff rheng flaen, cynyddu capasiti, hyfforddiant a chefnogaeth, a gwelededd uwch reolwyr;
- adfer hyder ac ymrwymiad asiantaethau partner;
- rhoi system sicrhau ansawdd cadarn ar waith.

Dwy flynedd yn ddiweddarach, yn dilyn cyfres o ymweliadau monitro ac arolygiadau cadarnhaol, barnwyd fod gwasanaethau plant yng Nghastell-nedd Port Talbot yn perfformio'n dda, ac o ganlyniad cafodd y cyngor ei dynnu o'r Protocol.

Dyfyniad o adroddiad gan aelod o staff (manylion i'w cael yn Arolwg Staff Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc 2014):

"Credaf fod y gwasanaeth yn gweithredu ar sail lawer mwy sefydlog nag yn y blynyddoedd blaenorol. Mae adfer prosesau clir wedi darparu strwythur lle gall staff weithredu mewn amgylchedd mwy rheoledig, ac mae lles plant a'u teuluoedd yn cael eu hamddiffyn yn well".

Ym mis Mehefin 2015, cyhoeddodd y cyngor adolygiad o wersi a ddysgwyd, a oedd yn amlygu'r hyn a aeth yn dda a beth wnaeth y gwahaniaeth. Nododd yr adroddiad bwysigrwyd ymgysylltu aelodau etholedig a gwerth eu cefnogaeth. Roedd yr adroddiad hefyd yn pwysleisio gwerth ceisio cymorth gan gymheiriaid ac edrych mewn mannau eraill (Leeds yn yr achos hwn) am ddatrysiadau posibl – dau awgrym a wnaed gennym.

Nododd yr adroddiad:

'Dangosodd Cyngor Dinas Leeds i ni eu bod, er gwaethaf lefelau uchel naturiol o alw, yn gallu parhau i ddarparu cymorth gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd da i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn enwedig ym meysydd:

- rheoli lefelau uchel o achosion cymhleth;
- prosesau diogelu amlasiantaethol cryf;
- trefniadau derbyn arloesol;
- arweinyddiaeth agored a gwybodus.'

Daeth yr adroddiad i ben gyda'r datganiad:

"Un darn pwysig yr ydym wedi'i ddysgu yw peidio â thrin yr Arolygiaeth fel gwrthwynebwyr. Yn amlwg, bu i AGGCC dynnu sylw at ein diffygion; diffygion oedd hyd at hynny o dan yr wyneb ac yn rhwystredig am eu bod yn haniaethol.

Gwelsom nad oedd AGGCC yn canolbwyntio ar fesur ein llwyddiant o ran bodloni eu hargymhellion yn unig, ond eu bod nhw hefyd yn rhagweithiol wrth gynnig cyngor rheolaidd.'

Drwy weithio gydag AGGCC yn hytrach nag yn eu herbyn, roedd eu cefnogaeth yn amhrisiadwy wrth ein helpu ar bob cam i ganolbwyntio'n glir ar yr hyn yr oedd angen i ni ei wneud nesaf ac wrth gadarnhau ein dadansoddiad ein hunain o'r lle yr oeddem wedi ei gyrraedd a lle'r oedd angen i ni fynd nesaf. Yr ydym i gyd yn hynod ddiolchgar am hynny."

Pennod Pump

Golwg fanylach ar wasanaethau plant

Mae'r bennod hon yn rhoi golwg fanwl ar berfformiad gwasanaethau plant a'r blynyddoedd cynnar.

Demograffeg – Cymru

- Roedd 629,609⁵ o blant a phobl ifanc o dan 18 mlwydd oed yng Nghymru yn ystod 2014-15 gyda 554,841 o dan 16 mlwydd oed.
- Roedd tua 200,000⁶ o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi.
- Roedd tua 94,000 yn byw mewn tlodi enbyd.⁷
- Poblogaeth plant tair a phedair oed oedd 73,293.
- Roedd 77,314 o leoliadau ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae.
- Derbyniodd 5,785 o blant tair a phedair oed yn y sector nas cynhaliwyd addysg Cyfnod Sylfaen.
- Derbyniodd 20,145 o blant mewn angen a'u teuluoedd gefnogaeth gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.
- Roedd 5,617 o blant mewn angen yn blant sy'n derbyn gofal.
- Roedd 2,936 o blant mewn angen ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru.
- Cofnododd awdurdodau lleol mai £553,950,000 oedd y gwariant mewn gwasanaethau plant (£248,201,000 ar gyfer gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal).
- Bu i 37,260 o blant elwa ar Dechrau'n Deg.

Gwneud gwahaniaeth i fywydau plant

Rydym wedi parhau i gefnogi amcanion cenedlaethol Llywodraeth Cymru o ran gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Gwnaethom hyn drwy ymdrechu i sicrhau bod comisiynwyr, darparwyr a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau yn gwella lles ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd cadarnhaol ac uchelgeisiau i blant a phobl ifanc.

Mae darpariaeth gofal plant fforddiadwy a hygyrch i gefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gyflawni canlyniadau gwell yn un o bum blaenoriaeth allweddol y Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig. Parhaodd mynd i'r afael â thlodi plant i fod yn her, gyda 31% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi, o'i gymharu â 28% yn Lloegr, 24% yng Ngogledd Iwerddon, a 21% yn yr Alban.

Croesawyd y ffocws newydd a'r dull gweithredu ehangach a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Trechu Tlodi 2015 ar gyfer gweithredu ar y cyd ar draws yr holl gyrff a sectorau. Bydd casglu tystiolaeth ar sut mae awdurdodau lleol ac eraill yn cefnogi'r amcan hwn yn flaenoriaeth allweddol i'n gwaith adolygu ac arolygu gydag awdurdodau lleol, a'n hasesu system gyfan gyda phartneriaid Arolygu Cymru ar iechyd corfforaethol pob awdurdod lleol.

Mae ymchwil yn dangos bod y blynyddoedd cynnar yn hanfodol ar gyfer twf gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol. Mae helpu teuluoedd i gyfuno gwaith a gofal yn gam hanfodol wrth sicrhau cydraddoldeb drwy alluogi mynediad gwell at y farchnad lafur i ferched, tra bod helpu rhieni i weithio yn gallu cefnogi twf economaidd a mynd i'r afael â thlodi.

Fel rheoleiddiwr ac arolygiaeth gofal plant a gofal cymdeithasol, rydym yn gweld rôl weithredol cymunedau a grwpiau rhianta o ran sefydlu trefniadau gofal plant lleol yn uniongyrchol. Mae'r rhain yn asedau cymunedol pwysig ac yn chwarae rôl annatod wrth gefnogi'r economi leol i hwyluso gallu rhieni i ddychwelyd i weithio neu i chwilio am waith neu hyfforddiant.

⁵ StatsCymru – amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth gan yr ONS, 2014

⁶ Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar ddata Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI) ar gyfer Cymru, sy'n dangos bod 31% o blant yn byw mewn cartrefi islau 60% o'r incwm cartref canolrifol (ar ôl costau tai) ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2010–11 a 2012–13. Mae'r data yn deillio o'r Arolwg o Adnoddau Teulu.

⁷ www.savethechildren.org.uk/sites/default/files/documents/Child-Poverty-Snapshots-Welsh.pdf

Rydym yn cefnogi'r Fframwaith Canlyniadau Cyffredin newydd ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, a'i bwyslais ar fonitro a llywio ymddygiad er mwyn helpu unigolion ar lefelau gwahanol y gwasanaeth i ddeall eu cyfraniad i wella ansawdd bywyd mewn cymunedau. Mae trechu tlodi yn gofyn am weithredu ar y cyd, a gall gael effaith bwerus pan fo'r holl bartneriaid yn rhannu, dadansoddi a defnyddio tystiolaeth i lywio strategaethau lleol. Bydd y fframwaith arolygu newydd yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth, a bydd yn nodi'r mesurau y byddwn yn eu defnyddio yn ein hasesiad o berfformiad awdurdodau lleol wrth gefnogi lles cymunedol a mynd i'r afael â thlodi.

Mae gofal plant blynyddoedd cynnar a gofal plant hygyrch o ansawdd uchel yn parhau i fod yn bwysig i gadernid a hyder plant, ynghyd â lleihau'r bwlch cyrhaeddiad er mwyn sicrhau eu bod yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Yr ydym yn falch bod codi safonau yn y gweithlu a'r gwasanaethau addysg a gofal plant cynnar wedi parhau i fod yn nodwedd gref o adroddiad cynnydd 2014–15 ar *Adeiladu Dyfodol Gwell*.

Dros y cyfnod hwn, gwnaethom weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Bwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar, Grŵp Arbenigol y Cyfnod Sylfaen ac eraill wrth gyfrannu at nifer o adolygiadau a rhaglenni, ac i archwilio lle cafodd gweithredoedd fwyaf o effaith.

Dros 2014–15, bu i ni arolygu a rheoleiddio 2,406 o wasanaethau gofal plant oedd yn darparu 51,874 o leoedd. Mae ein harbenigedd proffesiynol, gwybodaeth a phrosesau casglu gwybodaeth o'n gwaith wedi ein galluogi i ddarparu cyngor annibynnol a thystiolaeth i weinidogion a rhanddeiliaid ehangach i lywio polisiau a blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Nid yn unig mae hyn wedi dylanwadu ar bolisi, ond rydym wedi bod yn weithgar wrth ailfodelu ein harolygiadau a'n hymgysylltiad â phlant a theuluoedd er mwyn sicrhau bod ein dull yn y dyfodol yn ategu ac yn cyd-fynd ag amcanion cenedlaethol i wella lles plant, ac i fesur yr effaith a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud.



Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei phenderfyniad i ymestyn rheoleiddio gofal plant a chwarae plant o dan 12 mlwydd oed o 1 Ebrill 2016. Rydym wedi gwneud buddsoddiad sylweddol wrth ymgysylltu gyda'r sector a darparwyr drwy dri digwyddiad cenedlaethol i randdeiliaid i baratoi gwasanaethau ar gyfer y newidiadau. Bydd ein hymdriniaeth o'r ymestyniad rheoleiddio ac arolygu gofal plant a chwarae, yn ogystal â'r ymateb gan ddarparwyr, yn nodwedd amlwg o'n hadroddiad 2015–16.

Meysydd gweithredu allweddol/ein heffaith:

- Amlygodd yr ymateb i argymhellion yr adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar ac Adolygiad Archwiliad y Cyfnod Sylfaen fuddiannau cyfuno'r fframwaith rheoleiddio ac arolygu o amgylch gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i'r rhai 0–7 mlwydd oed.
- Fframwaith Canlyniadau Blynyddoedd Cynnar gyda ffocws ar les a datblygiad plentyn yw sylfaen ein fframwaith arolygu newydd ar gyfer gofal plant a chwarae.
- Cynllun 10 mlynedd Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar – datblygu sgiliau a chapasiti yn y sector a chydabod rôl hanfodol y rhai sy'n addysgu ein plant ieuengaf ac yn gofalu amdanynt.
- Adolygu Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ar gyfer asesiad awdurdod lleol o lefel y gofal plant – bu i ni weithio gydag awdurdodau lleol, gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd ac ymgynghorwyr polisi i gytuno ar ddiffiniadau cyffredin ar gyfer yr ystod amrywiol o ofal plant a chwarae, a chasglu a rhannu ein data yn drwyadl. Datblygwyd asesiad gwasanaeth integredig newydd gennym a theclyn adolygu ansawdd blynyddol i alluogi darparwyr i roi diweddariadau ar-lein rheolaidd i ni am newidiadau yn eu gwasanaeth. Bydd y wybodaeth yn chwarae rôl allweddol o ran llunio marchnad yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau ystod amrywiol o wasanaethau gofal plant fforddiadwy yn y gymuned sy'n gynaliadwy wrth fodloni'r angen lleol a chenedlaethol.
- Fframwaith asesu newydd (EDAF) i gefnogi camau olrhain cynnydd datblygiadol pob plentyn rhwng 0 a 7 mlwydd oed. Byddwn

yn hyrwyddo defnyddio'r teclyn i gofnodi datblygiad fel arfer gorau ar gyfer pob plentyn a chydabod/gwobrwyo'r gwasanaethau hynny drwy gyfrwng ein hadroddiadau arolygu.

- Gwnaethom ddatblygu fframwaith arolygu ar y cyd ag Estyn ochr yn ochr â'r sector drwy weithdai cenedlaethol, a chafodd ei dreialu mewn 11 ardal gwasanaeth i brofi'r broses o arolygu ar y cyd a rhoi dyfarniadau.
- Yn y blynyddoedd cynnar, mae'r gweithlu gofal plant a chwarae yn cael ei gefnogi gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Gwnaethom atgyfnerthu ein trefniadau rheoleiddio ac arolygu i ystyried nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Newidiadau i gofrestru darpariaeth gofal plant yng Nghymru – gwnaethom ysgrifennu at bob darparwr gofal plant cofrestredig yng Nghymru i ofyn eu barn am yr effaith ar eu busnes a'u cynghori ynghylch pa systemau y byddwn yn eu rhoi ar waith i leihau beichiau.

Mae ein hymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid wrth ddatblygu ein fframwaith arolygu newydd ar gyfer gofal plant a'r rheiny y byddwn yn eu harolygu ar y cyd ag Estyn yn ganolog i'n gwaith. Gwnaethom gefnogi teclynnau ac adnoddau hyfforddiant a fydd yn rhoi ffocws allweddol ar fesur datblygiad plentyn a chanlyniadau llesiant a diogelu eu hawliau. Bu i ni hefyd weithio gyda'r sectorau gofal plant a chwarae i fesur yr effaith y bydd ymestyn camau rheoleiddio ac arolygu yn ei chael ar eu busnes a'r ffordd orau y gallwn roi trefniadau cymesur ar waith i sicrhau bod plant hyn yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, sicr a phriodol.

Lleoedd gofal plant a Dechrau'n Deg

Parhaodd Dechrau'n Deg i fod yn flaenoriaeth wrth fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru gan ddarparu cymorth gwell i deuluoedd gyda phlant o dan bedair mlwydd oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Yn 2014–15, denodd fuddsoddiad o £71 miliwn gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn codi i £76.9 miliwn yn 2015–16. Mae gofal plant o safon yn rhad ac am ddim am ddwy a thair oed yn un o'r nodau mae Dechrau'n Deg yn eu targedu. Mae gwerthusiadau yn dangos yr effaith gadarnhaol a'r gwahaniaeth mae'r rhaglen yn eu gwneud i gyfleoedd bywyd plant.


Nododd ymchwil⁸ ddiweddar fod rhai rhieni yn ffafrio gofal plant Dechrau'n Deg o'i gymharu â darpariaeth nad oedd yn cael ei darparu gan Ddechrau'n Deg; roedd rhai yn teimlo bod gofal plant Dechrau'n Deg yn 'fwy strwythuredig' na darpariaeth arall, gydag enghreifftiau da o staff gofal plant yn cynnig hawliau ehangach fel therapi iaith a lleferydd.

Y llynedd bu i ni bwysleisio'r pwysigrwydd i'r cymunedau mwyaf difreintiedig a'r defnydd o arian i ddatblygu lleoedd gofal plant o ansawdd. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n elwa o ddarpariaeth Dechrau'n Deg: 37,260 o'i gymharu â 32,581 yn y flwyddyn flaenorol, gyda chynnydd nodedig yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf. Y mwyaf nodedig oedd y cynnydd mewn plant dan bedair oed a ddryanwyd i ymwelwyr ieuchyd Dechrau'n Deg yn ardal Merthyr Tudful o gymoedd de Cymru (44%). Mae diagramau 10 ac 11 yn dangos

dosbarthiad yr elfen hon o ddarpariaeth Dechrau'n Deg ledled Cymru yn 2014–15. Mae'n werth nodi'r cynnydd o 19% (o 6,450 i 7,658) yn nifer y plant sy'n gymwys o'r newydd i dderbyn cynnig llawn neu ostyngedig o ofal plant trwy'r rhaglen Dechrau'n Deg.

Fodd bynnag, wrth ystyried cofrestriadau, datgofrestriadau a newidiadau i leoedd cofrestredig o fewn gwasanaethau, mae nifer y lleoedd gofal plant wedi aros ar yr un lefel â 2013–14. Mae Diagram 12 yn dangos dosbarthiad lleoedd gofal plant i blant dan wyth mlwydd oed.


Diagram 10: Canran y boblogaeth o dan 4 mlwydd oed ar lwyth achosion ymwelwyr ieuchyd Dechrau'n Deg (yn nhrefn y newid mewn %)



Ffynhonnell – StatsCymru


⁸ Gwasanaeth Ymchwil y Llywodraeth, Ymchwil Ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg – Ionawr 2016

Diagram 11: Canran y boblogaeth o dan 4 mlwydd oed ar lwyth achosion ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg, yn ystod 2014–15



Yn cynnwys data Arolwg Ordians © Hawlfraint a chronfa ddata y Goron 2015

Diagram 12: Cyfradd o leodd gofal dydd i blant fesul 100 y boblogaeth o dan 8 mlwydd oed ar 31 Mawrth 2015



Yn cynnwys data Arolwg Ordians © Hawtfraint a hawl cronfa ddata y Goron 2015


Plant sy'n derbyn gofal

5,617 oedd nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2015, a oedd yn cynrychioli gostyngiad o 2.2% o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal o ganlyniad i gyfradd gyflymach o blant yn gadael gofal (134 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol) yn hytrach na llai o blant yn cael eu derbyn i ofal. Mae data perfformiad cenedlaethol ar gyfer 31 Mawrth 2015 yn dangos:

- bod 512 o blant sy'n derbyn gofal wedi cael tri neu fwy o leoliadau, sef cyfradd o 9%, o'i gymharu ag 8% y flwyddyn flaenorol;

- cynnydd yn nifer y plant a fabwysiadwyd o 38 (11%) dros y flwyddyn flaenorol;
- bod awdurdodau lleol mewn cysylltiad gyda 93% o'r rhai oedd yn gadael gofal yn 19 mlwydd oed;
- y gwyddid bod 59% o'r rhai oedd yn gadael gofal yn 19 mlwydd oed mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, o'i gymharu â 55% y flwyddyn flaenorol.

Diagram 13: Nifer y plant sy'n derbyn gofal ac sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru, ar 31 Mawrth 2015



Ffynhonnell – StatsCymru

Mae'r adran hon yn trafod ein harolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal⁹ a'r rhai sy'n gadael gofal a'n camau wrth fonitro gwybodaeth am y plant hynny sy'n aros mewn cartrefi preswyl plant.

Gwnaed yr angen i flaenoriaethu ein gwaith dros 2014–15 i'r grŵp arbennig hwn o blant yn erbyn y datgeliadau o gam-drin systematig ar blant mewn gofal yn Rotherham, Rochdale a Swydd Rydychen ac er mwyn rhoi goleuni ar fregusrwydd cynyddol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Er nad oedd yr ymholiadau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol ag arfer yng Nghymru, roeddem am dynnu sylw at y canlyniadau dinistriol a allai ddilyn pan fo systemau lleol ar gyfer diogelu plant yn methu ac i bwysleisio pwysigrwydd eu dyletswyddau fel rhieni corfforaethol i awdurdodau lleol ac iddynt fod yn wiliadwrus er mwyn sicrhau gofal diogel i'w plant.

Roedd ein harolygiad yn canolbwyntio ar wasanaethau awdurdodau lleol o ran diogelu a rheoli risg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal ac yn arddangos ymddygiad peryglus neu eu bod yn agored i niwed. Dylanwadwyd ar ein harolygiad hefyd gan Gomisiynydd Plant Cymru.

⁹ Arolygiad o ddiogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg –


www.cssiw.org.uk/docs/cssiw/report/150130laccy.pdf

¹⁰ Adroddiadau gan Gomisiynydd Plant Cymru

Roedd 'Ar Goll wedi Gofal' a 'Lleisiau Coll'¹⁰ yn trafod pobl ifanc yn siarad am baratoi ar gyfer pontio i dyfu'n oedolyn ac a oedd yn teimlo nad oeddent bob amser yn rhan o'r broses adolygu gofal a bod gweithwyr proffesiynol yn esgus cynllunio dogfennau ac nad oeddent yn rhoi ystyriaeth i'w dymuniadau.

Roedd yr arolygiad hefyd yn ystyried y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol wrth ymateb i nifer o argymhellion a wnaed yn ein hadroddiadau blaenorol mewn perthynas â threfniadau diogelu ac adolygiad o rôl swyddogion adolygu annibynnol a chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal.

Yn ystod yr arolygiad, bu i arolygwyr siarad gyda thua 300 o blant sy'n derbyn gofal a rhai sydd wedi gadael gofal am eu profiadau yn ymwneud â gofal, ac ymatebodd 178 arall i'n holiadur.



Nodweddion y plant a'r bobl ifanc a gymrodd ran yn yr arolygiad.

Gwelodd arolygwyr fod nifer o'r plant wedi profi rhywfaint o'r canlynol, neu gyfuniad ohonynt, cyn iddynt ddod i ofal:

- Rhianta absennol/anhrefnus ac yn aml yn ddifrifol o annigonol.
- Cam-drin ac esgeulustod cronig.
- Cam-drin rhywiol, yn aml yn ifanc neu dros gyfnod estynedig.
- Amlygiad i effaith perthynas yn chwalu gan gynnwys cam-drin domestig, ymddygiad troseddol, camddefnyddio sylweddau, a phroblemau iechyd meddwl.

Roedd adroddiadau pobl ifanc o'u profiadau o ofal yn cynnwys cyfuniadau cymhleth o:

- Ymddieithrio oddi wrth deulu biolegol.
- Anfodlonrwydd â'r amgylchiadau sy'n golygu eu bod yn dod i ofal a ddim eisiau byw gyda theulu arall.
- Anallu i setlo naill ai gartref neu mewn gofal.
- Ynysu cymdeithasol.
- Lles emosiynol gwael gan gynnwys hunan-barch isel.
- Diffyg ymddiriedaeth mewn oedolion, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol.
- Ymddygiad peryglus neu risgiau cysylltiedig o ganlyniad i fynd ar goll, camddefnyddio sylweddau, ac ymddygiad hunan-niweidiol.

Canfu ein harolygiad y meysydd canlynol i'w gwella:

- Roedd angen i aelodau, swyddogion ac asiantaethau partner sicrhau perchnogaeth o nodau strategol a gweithredoedd i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.
- Roedd angen mynd i'r afael yn genedlaethol ar unwaith â diffyg yn y gwasanaeth i ddiwallu anghenion iechyd seicolegol ac emosiynol.
- Roedd angen mwy o eglurder yn y berthynas rhwng prosesau amddiffyn plant, rheoli risg a chynllunio gofal.

- Roedd angen i awdurdodau lleol gyflymu'r ymdrechion i sicrhau sefydlogrwydd a chanlyniadau da ar gyfer y plant hynny sydd eisoes yn derbyn gofal.
- Diffygion yng nghapasiti ac effeithiolrwydd adolygiadau o gynlluniau gofal plant.

Byddwn yn monitro'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol wrth wneud y gwelliannau a amlinellir uchod. Byddwn yn defnyddio cyfuniad o ddulliau, gan gynnwys ein hadolygiad blynyddol a'n hasesiad o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, ac mewn arolwg â phwyslais penodol byddwn yn adolygu effaith y broses o gynllunio gofal ar blant sy'n derbyn gofal mewn nifer fechan o awdurdodau lleol.

Cartrefi plant

- Roedd 133 o gartrefi plant yn 2014–15 yn darparu 596 o leoliadau, sydd yn gynydd o bedwar cartref ers y flwyddyn flaenorol;
- Roedd 105 gwasanaeth yn darparu 441 o leoliadau, wedi'u cofrestru i ddarparwyr preifat;
- Roedd 23 gwasanaeth yn darparu 132 o leoliadau, wedi'u cofrestru i awdurdodau lleol;
- Roedd un cartref plant diogel, yn darparu 23 lleoliad ar gyfer cyfiawnder ieuencid yn bennaf, yn ogystal â lleoliadau gofal;
- Roedd 169 o reolwyr gofal plant preswyl cofrestredig¹¹, 74% ohonynt wedi'u cyflogi mewn cartrefi yn y sector preifat;
- Roedd 2,167 o weithwyr gofal plant preswyl, 52% ohonynt wedi'u cyflogi gan y sector preifat.

Mathau o ofal a ddarperir yn y cartrefi plant yr ydym yn eu rheoleiddio a'u harolygu:

- Cartrefi sy'n cynnig llety i blant sy'n derbyn gofal;
- Cartrefi sy'n darparu gofal seibiant byr ar gyfer plant anabl a phlant eraill mewn angen;
- Cartrefi plant diogel yn bennaf i blant ar remand neu sydd wedi'u dedfrydu i'r ddalfa, ond sydd hefyd yn cynnwys lleoliadau gofal i blant sydd mewn perygl mawr o wneud niwed iddynt hwy eu hunain neu i eraill;

¹¹ Yn unol â'r gyfraith, mae'n rhaid i reolwyr a staff gofal preswyl gofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru. Y ffigyrau yw'r nifer sydd wedi cofrestru gyda'r cyngor ym mis Mehefin 2014.

- Ysgolion preswyl arbennig sy'n darparu gofal 365 diwrnod i blant ac oedolion anabl gan gynnwys y rheiny gyda salwch meddwl.

Nid yw plant sy'n aros mewn ysgolion preswyl arbennig (lle mai addysg yw eu prif angen) am lai na 365 diwrnod bob blwyddyn (12 gwasanaeth) ac ysgolion bwrdd (10 gwasanaeth) wedi cofrestru gyda ni, ond maent yn cael eu harolygu gennym ni.

Mae cartrefi plant yn darparu gofal ar gyfer rhai o blant mwyaf agored i niwed Cymru, gydag amrywiaeth eang o anghenion mewn lleoliadau amrywiol. Bydd gan lawer anghenion cymhleth a heriol, ac mae'n bwysig bod gwasanaethau'n gallu cefnogi ac ymateb i anghenion gwahanol a dwys rhwng glaslencyndod sy'n agored i niwed, yn bennaf plant sy'n derbyn gofal sydd efallai wedi dioddef plentyndod trawmatig ac anhrefnus, a phlant ag anghenion addysgol penodol cymhleth. Mae llawer o leoliadau mewn cartrefi plant gan awdurdodau lleol y tu allan i Gymru, ac mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod y lleoliad yn addas a bod anghenion plant yn cael eu diwallu, i gynnal cyswllt gyda'r plentyn, ac i hysbysu'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol yng Nghymru am y lleoliadau.

Mae cartrefi plant yn cael eu harchwilio bob blwyddyn, ac roedd yn gadarnhaol nodi bod 94% o gartrefi yn bodloni'r safonau gofal, a bu i ni weithio gyda saith cartref i wneud gwelliannau. Roedd un cartref gofal yn peri pryder, ac fe wnaethom roi system fonitro gadarn ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn ddiogel a bod peryglon yn cael eu rheoli.

Nid yw'n hyfyw i lawer o awdurdodau lleol gomisiynu lleoliadau arbennig mewn awdurdodau eraill ac, fel y cyfryw, cafodd 89 o 250 o leoliadau awdurdodau lleol mewn cartrefi preswyl eu lleoli y tu allan i'w hardal awdurdod lleol eu hunain ac roedd 54 o'r rhain y tu allan i Gymru.

Pennod Chwech

Golwg fanylach ar wasanaethau oedolion

Mae'r bennod hon yn edrych yn fanylach ar wasanaethau oedolion, maes sydd y creffir arno'n gynyddol. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar gartrefi gofal a chynlluniau ar gyfer y dyfodol i sicrhau bod gwasanaethau ar waith i ddiwallu anghenion poblogaeth hŷn gynyddol yng Nghymru.

Roedd y sefyllfa yng Nghymru yn 2014–15 fel a ganlyn:

- Roedd 614,747¹² o oedolion dros 65 mlwydd oed, gydag oddeutu 8.4% ohonynt yn derbyn gofal a ariennir yn gyhoeddus.
- Roedd 40,451 o oedolion 65 mlwydd oed neu drosodd yn cael eu cefnogi i fyw yn y gymuned.
- Roedd 11,324 o oedolion 65 mlwydd oed neu drosodd yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi gofal preswyl.
- Roedd 28,514 o oedolion rhwng 18 a 65 mlwydd oed yn cael eu cefnogi i fyw yn y gymuned neu mewn cartrefi gofal preswyl.


Cofnodwyd gwariant o £1,106,013,000 a £532,858,000 gan awdurdodau lleol ar gyfer oedolion dan 65 mlwydd oed, a £573,155,000 ar gyfer oedolion dros 65 mlwydd oed. Roedd hyn yn dangos cynnydd yn y gwariant cyffredinol mewn gwasanaethau i oedolion o'i gymharu â ffigurau'r flwyddyn flaenorol, yn arbennig yn y gwasanaethau i oedolion dros 65 mlwydd oed.

Mae Diagram 14 yn dangos sut mae oedolion yn cofnodi eu hiechyd gwael/teg dros amser.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae llai o oedolion wedi cofnodi iechyd gwael/teg – a hynny'n fwy amlwg yn y grŵp oedran 65+.

Gwasanaethau a reoleiddir

Diagram 14: Oedolion a nododd iechyd cyffredinol gweddol neu wael yn ôl band oedran



Roedd y materion mwyaf arwyddocaol a ddaeth i'r golwg mewn gwasanaethau gofal a gwasanaethau cefnogol yn ystod 2015 i'w gweld yn y gwasanaethau i bobl hŷn. Roedd nifer o adroddiadau pwysig a gafodd eu cyhoeddi neu eu paratoi yn ystod 2015, a thrafodwyd nifer o bryderon yn y cyfryngau. Roedd materion yng Nghymru yn cynnwys argaeledd ac ansawdd cartrefi gofal a gwasanaethau gofal cartref.

Er bod y rhan fwyaf o wasanaethau yn darparu gofal rhesymol, bu pryderon difrifol iawn am ansawdd y gofal, fel y gwelir yn Niagram 15, mewn nifer fechan o wasanaethau. Mae denu a chadw staff ar draws y sector yn hanfodol, ond mae'n profi'n her mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â nyrsys cofrestredig a gweithwyr gofal cartref. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ledled y DU. Er gwaethaf hyn, rydym wedi arolygu gwasanaethau lle nad yw denu a chadw staff ffyddlon o'r gymuned leol wedi bod yn broblem. Fel arfer, roedd gan y gwasanaethau hyn arweinyddiaeth gref ac effeithiol, ethos da o ran gweithio fel tîm, a chysylltiadau a rhwydweithiau lleol cryf. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gweld gwasanaethau mewn ardaloedd mwy anghysbell lle nad oes poblogaethau gweithlu naturiol i allu manteisio


arnynt i recriwtio staff. Yn yr un modd, dywedodd darparwyr gyda gwasanaethau mewn dinasoedd wrthym fod y gystadleuaeth am staff yn gallu bod yn anodd oherwydd bod mwy o gyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig yn y sector manwerthu. O ganlyniad i hyn, dywedodd darparwyr wrthym eu bod wedi cael eu hunain i gyd yn 'pysgota' yn yr un pwl bach'.

Mae nifer, cymhlethdod angen, a bregusrwydd y rheiny sydd yn derbyn gofal yn cynyddu. Ar yr un pryd, mae cyllidebau awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cael eu gwasgu. Yr her sy'n wynebu comisiynwyr yw datblygu a chynnal gwasanaethau ataliol yn wyneb galw cynyddol a chostau sy'n codi ar gyfer gofal dwys tymor hir.

Mae dychymyg, asesiadau ac adolygiadau cychwynnol o ansawdd uchel, a ffocws diwyro ar ailalluogi yn hanfodol i gynnal y gwasanaethau.

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau gofal yn codi, gyda rhwymedigaethau newydd ar gyflogwyr i gefnogi pensiynau a chostau yswiriant ac eiddo cynyddol. Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn y DU yn 2017 yn bryder sy'n pwysu, a hynny am fod dwy ran o dair o gostau gwasanaethau gofal yn cael eu priodoli i staffio. Amlygwyd y risg o wasanaethau'n cau yng nghyfyngau'r DU.

Diagram 15: Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau Oedolion a Arolygwyd yn 2014–15



Cartrefi gofal i bobl hŷn

Yn ystod 2014–15, bu i ni gyfrannu at ddau adolygiad mawr ar ansawdd cartrefi gofal yng Nghymru. Un o'r rhain oedd adolygiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 'Lle i'w Alw'n Gartref', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014. Amlygodd yr adolygiad blaenllaw hwn lawer o agweddau pwysig ar fywyd mewn cartref gofal, gan gynnwys profiadau o ddydd i ddydd preswylwyr, eu lles emosiynol, a mynediad at gymorth gofal iechyd. Gwnaethom astudio'r adolygiad yn agos ac ailadrodd nifer o themâu allweddol yn ein fframwaith arolygu newydd, gan gynnwys dull yn seiliedig ar hawliau dynol.

Yr adolygiad arall a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015 oedd 'In Search of Accountability' gan Dr Margaret Flynn. Roedd hwn yn ddadansoddiad manwl ar y digwyddiadau a gododd o Operation Jasmine, ymchwiliad yr heddlu i nifer o farwolaethau mewn cartrefi gofal a ddechreuodd yn 2005. Yr oedd yn ddarlun cymhleth. Gwnaethom gynnal dadansoddiad manwl o weithgarwch yr arolygiaeth, gan nodi bod rhwystrau a heriau wrth gymryd camau gorfodi er gwaethaf diwydrwydd arolygwyr. Llwyddodd dealltwriaeth o'r heriau hyn i'n helpu i foderneiddio ein dull yn 2012 a chynnig argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Bu i ni gyfarfod aelodau o deuluoedd yn 2014 fel rhan o adolygiad Flynn, a'r hyn ddaeth i'r amlwg oedd cyn lleied yr oedd y teuluoedd yn gwybod am yr hyn oedd wedi'i wneud ar ran eu perthnasau a beth oedd y canlyniadau yn hyn o beth. Roedd yn wers bwysig i ni ei dysgu.

Y drydedd astudiaeth bwysig a manwl oedd Ymchwiliad John Kennedy i Gartrefi Gofal (Hydref 2014), a gynhaliwyd ar ran Ymddiriedolaeth Joseph Rowntree. Amlygodd yr astudiaeth hon bwysigrwydd gofal yn seiliedig ar berthynas a'r amodau sydd eu hangen i'w feithrin. Bu i ni gyfarfod John Kennedy i drafod ei ganfyddiadau ac i ystyried sut y dylem ni fel arolygiaeth fwrw ymlaen gyda'i argymhellion. Roeddem yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar ganlyniadau yn ystod arolygiadau yn hytrach nag ar waith papur, i geisio lleihau'r baich gwaith papur a roddir gennym ar gartrefi gofal drwy gyflwyno

hunanasesiad cyffredin ar draws ein sefydliad a'r comisiynwyr, a phwysigrwydd cydgynhyrchu a chydweithredu gyda'r sector cartrefi gofal. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi ceisio ei wneud wrth ddatblygu ein fframwaith arolygu newydd.

Y farchnad cartrefi gofal i bobl hŷn

Ar 31 Mawrth 2015, roedd 22,413 o welyau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yng Nghymru mewn 661 cartref gofal, cyfartaledd o 33.9 gwely i bob cartref. Maint cymedrig cartref gofal â nyrsio oedd 45 o welyau, a 28 o welyau ar gyfer cartrefi heb nyrsio.

Mae nifer y cartrefi gofal sydd wedi cofrestru gyda ni wedi lleihau yn y tair blynedd ddiwethaf (2012–2015), er y bu i'r duedd gilio yn 2014–15. Y gostyngiad net mewn cartrefi dros dair blynedd oedd 30 o gartrefi (19 o gartrefi nyrsio ac 11 preswyl). Ar lefel leol, gwelsom nifer o gartrefi nyrsio yn cael trafferth, a bu i nifer gau naill ai yn dilyn camau gweithredu gennym ni ein hunain neu oherwydd problemau ariannol oedd yn gwaethygu'n aml oherwydd diffyg staff, gorddibyniaeth ar nyrsys asiantaethau, neu embargo lleoliad. Yn ei dro, bu i hyn effeithio ar ryddhau cleifion o'r ysbyty ac ar ddewisiadau'r rhai oedd angen gofal. Roedd hefyd yn amlwg, yn enwedig pan ddaeth cau yn realiti, bod anghenion y sawl oedd yn derbyn gofal yn gymhleth iawn a'u bod yn aml yn gyfuniad o ofal nyrsio a dementia. Byddai'n fuddiol i ganolbwyntio ar anghenion y grŵp penodol hwn, a maint y grŵp hwn o bobl, o ystyried effaith gyfunol dementia ac eiddilwch corfforol. Byddai hyn yn helpu i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau sy'n wydn o ran darparu gofal diogel a dibynadwy.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau sy'n ddigonol i ddiwallu'r angen yn eu hardal, tra bydd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd arnom i adrodd ar sefydlogrwydd y farchnad. Mae datblygu dealltwriaeth o'r 'farchnad' gofal yn sylfaenol i'r ddau ofyniad. Mae'r farchnad gofal yn gymhleth, gydag amrywiaeth eang o wahanol chwaraewyr, ac mae'n amodol ar newidiadau a phwysau allanol, yn enwedig rhai ariannol, a allai fod yn anodd i'w rhagweld.


O safbwynt cyflenwad a galw, mae dosbarthiad gwelyau nyrsio a gofal personol yn parhau i fod yn anghyson ledled Cymru, fel y dangosir yn niagramau 1 a 2, ac mae'n codi cwestiynau am y galw cymesur am y mathau gwahanol hyn o wasanaethau. Mae'n debygol bod siâp y farchnad wedi'i phennu gan gysail hanesyddol a hanes y gofal a'r gwasanaethau iechyd sy'n bodoli'n barod, yn hytrach na gweithgarwch siapio a chomisiynu gweithredol. Er enghraifft, mae ein dadansoddiad o welyau nyrsio yn dangos cyfradd o 27.0 gwely i bob 1,000 o'r boblogaeth dros 65 mlwydd oed yn Abertawe, o'i chymharu â 14.9 yng Nghasnewydd, 19.7 yn Sir Benfro, a 11.3 yn Sir Fynwy. Ydy'r proffil angen am gartrefi nyrsio wir mor wahanol rhwng y cymunedau hyn fel bod yr angen am welyau nyrsio bron yn ddwbl yr hyn mae'n ymddangos i fod mewn cymunedau sydd yn ôl pob golwg yn debyg?

Hefyd nid oedd y gyfran o welyau mewn cartrefi gofal sydd naill ai'n nyrsio neu'n breswyl yn gyson. Roedd y gymhareb rhwng cyfraddau gwelyau nyrsio a gwelyau gofal personol yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd awdurdodau lleol.

Ym Mlaenau Gwent roedd yn 0.8, Abertawe 2.1, Casnewydd 1.2, Ynys Môn 0.4, a Wrecsam 0.3. A yw'n wir fod y galw am wahanol fathau o welyau yn amrywio cymaint ar draws Cymru?


Mae'n ymddangos bod angen egluro gwahanol ddibenion cartrefi nyrsio a chartrefi gofal personol, trothwyon a llwybrau derbyn, a galw posibl yn y dyfodol. Gwyddom, er enghraifft, fod pwysau sylweddol yn cael eu rhoi ar ddarparu gwelyau cartrefi gofal yn dilyn pryderon am ansawdd rhai cartrefi yng ngogledd-orllewin Cymru. Nid yw hynny'n syndod o ystyried y lefel isel o ddarpariaeth nyrsio ar Ynys Môn.

Diagram 16: Nifer y gwasanaethau mewn gofal preswyl i oedolion hŷn – 31 Mawrth 2015



Ffynhonnell – system rheoli data AGGCC

Diagram 17: Nifer y lleoliadau mewn gofal preswyl i oedolion hŷn – 31 Mawrth 2015




Ffynhonnell – system rheoli data AGGCC

Darperir y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth cartrefi gofal i bobl hŷn yng Nghymru gan ddarparwyr cartref unigol, ac mae nifer cymharol fechan o gartrefi yng Nghymru yn cael eu gweithredu gan ddarparwyr grŵp mawr (darlun gwahanol i weddill y DU). Mae'r mwyafrif o gartrefi a weithredir gan ddarparwyr grŵp mawr mewn ardaloedd awdurdod lleol ar hyd coridor yr M4, ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw grynodiad penodol o un darparwr a fyddai'n gosod ardal awdurdod lleol mewn risg uchel. Fodd bynnag, ein profiad oedd oherwydd prinder cyflenwad o gartrefi gofal mewn rhai ardaloedd, y gallai effaith unrhyw raî'n cau, hyd yn oed un cartref, p'un a yw'n cael ei weithredu gan ddarparwr cartref gofal unigol neu ddarparwr grŵp mawr, fod yn heriol iawn, gan roi lles a pharhad gofal i'r rheiny sy'n byw mewn cartrefi mewn perygl.


Mae hefyd yn ddiddorol ystyried i ba raddau mae awdurdodau lleol yn parhau i weithredu eu cartrefi gofal eu hunain a'r rhesymau dros wneud hynny. Bu tuedd tuag at gau neu drosglwyddo'r gwasanaethau hyn i ddarparwyr annibynnol yn y blynyddoedd diweddar, ac adlewyrchir hyn ar draws y DU. Mae'r rhesymau dros hyn yn ymwneud yn bennaf â chostau ychwanegol o redeg gwasanaethau mewnol a'r heriau sy'n wynebu awdurdodau o ran codi cyfalaf i adnewyddu neu amnewid yr hyn sydd wedi dod yn hen ffasiwn a/neu stoc gofal cartref sy'n dirywio. Rydym wedi nodi bod rhai awdurdodau lleol (megis Castell-nedd Port Talbot) wedi trosglwyddo eu holl wasanaethau yn llwyddiannus tra bod eraill sy'n parhau i geisio ailddarparu cartrefi gofal yn wynebu gwrthwynebiad gwleidyddol lleol sylweddol a sylwadau gan breswylwyr, perthnasau a staff.

Diagram 18: Cyfradd y gwelyau nyrsio fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 mlwydd oed a drosodd, fel ar 31 Mawrth 2015



Yn cynnwys data Arolwg Ordians © Hawlfraint a hawl cronfa ddata y Goron 2015

Diagram 19: Cyfradd y lleoedd mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 mlwydd oed a drosodd, fel ar 31 Mawrth 2015



Yn cynnwys data Arolwg Ordians © Hawffraint a hawlfontrfa ddata y Goron 2015

Ar 31 Mawrth 2015, roedd 84 o gartrefi gofal oedd yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol yng Nghymru'n cyfrif am ychydig dros 12% o'r holl gartrefi. Roedd y gyfran yn Lloegr o dan 5%. Roedd pedwar awdurdod lleol nad oeddent yn gweithredu unrhyw gartrefi gofal mewnol: Powys, Castell-nedd Port Talbot, Caerdydd a Thorfaen. O'r 18 awdurdod lleol sy'n weddill, nifer cyfartalog y cartrefi fesul awdurdod oedd 4.6, gyda rhai yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd: Rhondda Cynon Taf (12 o gartrefi), Gwynedd (11), Sir Gaerfyrddin (10), a Cheredigion (7). Roedd y gyfradd o ddarpariaeth fewnol (gwelyau) fesul 1,000 o'r boblogaeth dros 65 mlwydd oed yn uwch ar gyfer rhai cynghorau, gyda Rhondda Cynon Taf (0.008), Gwynedd (0.011) a Cheredigion (0.010) yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (0.004).


Roedd yr amrywiaeth hwn o ran darpariaeth yn awgrymu bod gan rai awdurdodau lleol gapasiti mewnol anghymesur ac y gellid mynd ar drywydd darpariaeth gofal nad yw'n breswyl (a elwir yn ofal ychwanegol) a gofal annibynnol fel opsiwn arall.

Yr ydym yn ymwybodol y gall fod rhesymau cadarn dros gadw neu ddatblygu darpariaeth fewnol, yn arbennig mewn perthynas â diogelwch y cyflenwad. Yn ein trafodaethau gydag un awdurdod lleol, dywedwyd wrthym nad oeddent yn gallu ysgogi unrhyw ddiddordeb gan unrhyw un i gymryd eu cartrefi drosodd neu i agor gwasanaethau yn eu hardal ac nad oedd ganddynt lawer o ddewis ond parhau i'w rhedeg.

Mae'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r sector cartrefi gofal yn y DU wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd yng nghyfyngau'r DU.

Nododd Adolygiad Perfformiad Masnachu Knight Frank ar gyfer 2015¹³ fod lefelau deiliadaeth yng Nghymru yn parhau i fod yn uchel o'u cymharu â gweddill y DU, ar tua 90%, gyda lefelau ffioedd fymryn yn is na'r cyfartaledd. Roedd cost gofal nyrsio fesul preswilydd yng Nghymru yn gymaradwy gyda chyfartaledd y DU, er bod cost gofal preswyl rhywfaint yn is. Yn ddiddorol, roedd pedwar o'r pum awdurdod lleol gyda'r gost staff isaf fesul gwely cofrestredig yn y DU yng Nghymru.


Diagram 20: Cyfraddau gwelyau sy'n cael eu defnyddio yn ôl rhanbarth (blwyddyn ariannol 2014–15)



Ffynhonnell – Knight Frank Research – siartiau ar gael yn Saesneg yn unig


¹³ Asesiad blynyddol Knight Frank o berfformiad gweithredol yn sector cartrefi gofal y DU
www.knightfrank.co.uk/research/care-homes-trading-performance-review-2015-3267.aspx

Diagram 21: Ffioedd wythnosol cyfartalog yn ôl rhanbarth
(blwyddyn ariannol 2014-15)



Ffynhonnell – Knight Frank Research – siartiau ar gael yn Saesneg yn unig

Diagram 22: Costau staff i bob gwely sy'n cael ei ddefnyddio (£) 2015



Ffynhonnell – Knight Frank Research – siartiau ar gael yn Saesneg yn unig

Mae mesur enillion ac elw gwasanaethau gofal cymdeithasol ar draws y DU (a elwir yn EBITDARM) wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2006, o 33% i 27%. Fodd bynnag, mae ffigyrau Knight Frank yn dangos mai'r EBITDARM ar gyfer Cymru oedd yr isaf ond un ar draws holl ardaloedd y DU ar tua 18%. Mae hyn yn fwy na thebyg oherwydd maint llai cartrefi gofal o'i gymharu gyda chyfartaledd y DU.

Nododd adolygiad Knight Frank fod rhai awdurdodau lleol yn codi'r cynnydd blynyddol mewn ffioedd o fis Ebrill 2016, a chasglodd y bydd y sector cartrefi gofal ar y cyfan yn cynnal perfformiad ariannol cadarn, er gwaethaf y cynnydd mewn costau a chyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Dywedodd yr adolygiad y bydd y sector yn denu buddsoddiad, ond y bydd cartrefi gofal gyda llai na 30 o welyau yn ei chael hi'n anodd yn ariannol a'u bod mewn perygl o gau.

Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn peri cyfyng-gyngor i'r rhai sy'n ystyried buddsoddi yng Nghymru; ceir manteision ac anfanteision. Yr hyn sy'n glir yn yr adroddiad yw bod proffidioldeb yn dibynnu ar faint a bod cartrefi llai o faint yn debygol o fod yn llai hyfyw yn y tymor hirach.

Nyrsys cynorthwyol

Yn 2014–15, cawsom ein holi gan fwy nag un darparwr mewn perthynas â datblygu 'rôl nyrs gynorthwyol' i wneud iawn am y diffyg argaeledd nyrsys cofrestredig. Dilynwyd y syniad hwn gyda golwg ar sefydlu astudiaeth beilot yng nghartref un darparwr (mae astudiaethau peilot tebyg yn digwydd yng ngweddill y DU). Fodd bynnag, codwyd materion am gymhwysedd, dyfnder hyfforddiant, goruchwyliaeth a dirprwyo, ac ni chytunwyd i fynd â'r astudiaeth hon ymlaen yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod goruchwyliaeth a throsolwg nyrsio o ansawdd yn hanfodol i ofal o ansawdd da a bod cartrefi gyda lefelau uchel o nyrsio asiantaeth yn dioddef o ddiffyg parhad yn y gofal. Byddem yn cefnogi dirprwyo tasgau beunyddiol mewn cartrefi nyrsio (e.e. rhoi'r rhan fwyaf o feddyginiaeth) i nyrsys cynorthwyol er mwyn rhyddhau capasiti nyrsys cofrestredig, ac yn credu os bydd Cymru yn rhoi sylw i'r mater o brinder nyrsys ac ansawdd gofal, y dylid symud y prosiect yn ei flaen ar frys er mwyn datblygu a threialu'r cysyniad o nyrsys cynorthwyol mewn cartrefi nyrsio.

Maeth a hydradu mewn cartrefi gofal

Mae maeth a hydradu yn hanfodol i les corfforol ac emosiynol. Soniwyd llawer am y pwnc, ac mae nifer o gynlluniau ar y gweill ledled Cymru megis 1000 o Fwydau a Mwy Torfaen. Yn ôl adolygiad Knight Frank, mae cost bwyd fesul preswlydd a ddarperir yng Nghymru 10% yn is na'r cyfartaledd, sy'n gosod Cymru yn is nag unrhyw ran arall o'r DU ac eithrio Gogledd-ddwyrain Lloegr. Mae hyn yn codi nifer o gwestiynau, yn enwedig o ran yr ansawdd a'r dewis sy'n cael ei gynnig.

Un agwedd yn unig yw'r ddarpariaeth o fwyd a diod ar gyfer sicrhau maeth ac iechyd da. Mae'r cymorth a ddarperir ar amser prydau bwyd a mynediad at rywbeth i fwyta ac yfed yn ystod gweddill y diwrnod yr un mor bwysig. Roedd y 'profiad bwyta' yn thema bwysig a amlygwyd yn adolygiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Arsylwyd amser prydau bwyd yn aml fel rhan o'i hadolygiad i fod yn 'glinigol, ac yn seiliedig ar dasg'. Mae pobl hŷn sydd yn wael neu'n dioddef o ddementia yn aml angen cefnogaeth gyson ac anogaeth i fwyta ac yfed ar adeg prydau bwyd. Mae ein harolygwyr wedi canfod arfer rhagorol lle mae prydau bwyd yn achlysuron dyrchafol gyda sylw personol yn cael ei roi i'r rheini sydd angen help, ac arferion gwael lle mae pobl yn cael eu gadael yn ddryslyd neu'n cael trafferth i fwyta ac yfed. Mewn rhai cartrefi nyrsio, nid yw'n anghyffredin i arolygwyr ganfod fod diodydd 'ar gael', ond allan o gyrraedd neu olwg y rhai sydd eu hangen.

Gofal cartref

Ar 31 Mawrth 2015:

- Roedd 381 o wasanaethau yn eiddo i sefydliad.
- Roedd 41 o wasanaethau yn eiddo i unigolyn.
- Roedd gan saith o ddarparwyr wasanaethau gofal cartref a thai â chymorth.
- Roedd y darparwr mwyaf yn berchen ar saith o wasanaethau.
- Allan o 422 o ddarparwyr, roedd 320 yn berchen ar un gwasanaeth yn unig (75.8%).

Yn ystod 2015, trafodwyd pryderon am ddarpariaeth gofal cartref ar draws gyfryngau cenedlaethol y DU, yn enwedig mewn perthynas ag ymweliadau byr, clipio galwadau, diffyg amser teithio rhwng galwadau, a thâl ac amodau staff, llawer ohonynt ar gcontractau 'sero awr'.

Cododd dau fater yng Nghymru a wnaeth ddenu sylw a phryder penodol: ailgomisiynu gwasanaethau gofal yn y cartref ym Mhowys a chyflwyno prynu deinamig gan Gyngor Caerdydd.

Powys

Roedd Cyngor Sir Powys wedi wynebu nifer o broblemau gyda gwasanaethau gofal cartref yn y gorffennol, yn enwedig mewn perthynas â sicrhau sylw i'r hyn sydd yn ardal wledig fawr. Yn ogystal â hynny, roedd yr awdurdod lleol hefyd yn ceisio ailgyfeirio'r defnydd o wasanaethau mewnol tuag at ailalluogi wedi'i dargedu.

Ar ôl cyfnod hir o adolygu, ac yn dilyn cyngor gan ymgynghorwyr allanol, cymrodd yr awdurdod lleol lwybr radical a cheisio caffael gwasanaethau gan bedwar darparwr yn unig, dau yng ngogledd y sir a dau yn ne'r sir. Roedd y gostyngiad hwn o ddefnyddio tua 16 darparwr lleol yn seiliedig ar y cyngor fod angen i ddarparwyr effeithlon fod yn ddigon mawr ac â digon o gapasiti. Roedd y contractau a roddwyd ar waith yn caniatáu is-gontractio.

O fewn cyfnod byr o amser, daeth yn amlwg na allai rhai o'r darparwyr newydd gyflawni'r contractau yr oedden nhw wedi ymrwymo iddynt a'r galw oedd yn cael ei roi arnyn nhw. Roedd argaeledd y gweithlu yn lleihau gan nad oedd staff, a oedd wedi ymrwymo i ddarparwyr teuluol lleol, eisiau trosglwyddo (TUPE) i ddarparwyr mwy. Mewn rhai ardaloedd o'r sir, arweiniodd methiant gwasanaethau i ddarparu staff at fethu llawer o alwadau gan roi bywydau defnyddwyr gwasanaethau mewn perygl mawr. O fewn ychydig fisoedd, roedd tri o'r pedwar darparwr naill ai wedi tynnu'n ôl, wedi rhoi rhybudd gadael, neu wedi eu diddymu. O ganlyniad i gwmp un o'r prif ddarparwyr, roedd yn rhaid i Gyngor Sir Powys redeg y gwasanaeth ei hun.

Cynhaliwyd archwiliad manwl o drefniadau Powys ac edrych yn fanwl hefyd ar berfformiad darparwyr Powys yn ystod cyfres o arolygiadau.

Gwnaeth arolygwyr y sylwadau canlynol sy'n cynnig gwersi pwysig i ddysgu eraill.

- **Yr effaith ar ofalwyr anffurfiol.** Pan fydd asiantaethau'n methu ac na ellir dibynnu arnynt, gall yr effaith ar ofalwyr anffurfiol neu ofalwyr teulu fod yn drychinebus. Dywedodd perthnasau wrth arolygwyr sut y gwnaethant ddioddef straen a phryder cyson am nad oeddent yn gwybod a oedd eu perthnasau'n ddiogel yn ystod cyfnod o ansefydlogrwydd ym Mhowys. Hefyd, dioddefodd aelodau eraill o'r teulu, yn enwedig plant, ac amharwyd ar waith gofalwyr gan fod yn rhaid iddynt gymryd amser i ffwrdd ar fyr rybudd oherwydd methiant asiantaethau i gyrraedd. Mae cael y ddarpariaeth gofal cartref yn anghywir yn rhoi teuluoedd dan bwysau ac o bosib mewn argyfwng, ac yn peryglu gofal anffurfiol.
- **Gwthio capasiti yn rhy bell.** Dywedodd asiantaethau wrth arolygwyr fod comisiynwyr Powys yn eu gosod dan bwysau enfawr i dderbyn gwaith na allent eu cyflawni'n iawn, oherwydd eu bod yn daer i roi pecynnau ar waith. Dywedodd y darparwyr wrthym eu bod yn ofni colli contractau, ac felly bu iddynt wthio eu hunain yn rhy bell a gweld eu hunain yn methu â chyflawni.
- **Systemau anfonebu a chysoni.** Mae'r systemau hyn yn hollbwysig o ran llif arian asiantaethau llai. Rhoddwyd nifer o asiantaethau mewn perygl difrifol oherwydd y dyledion yr oeddent yn dechrau eu hysgwyddo. Mae cysoni doeth, datrys ymholiad, a thaliadau cynnar yn hanfodol. Efallai y bydd asiantaethau bach angen cefnogaeth i ddatblygu'r seilwaith i ymateb i ofynion anfonebu a monitro perfformiad awdurdodau lleol.
- **Ni chynghorir is-gontractio.** Bu i is-gontractio rhwng asiantaethau achosi perthynas ddryslyd rhwng y comisiynwyr sylfaenol, yr asiantaeth oedd yn is-gontractio, a'r asiantaeth a dderbyniodd yr is-gontract. Roedd atebolrwydd yn aneglur ac roedd llinell olwg wan ar ansawdd a pherfformiad. Hefyd, cyflwynodd gostau ychwanegol i'r gadwyn gyflenwi.

- **Systemau amserlennu o fewn yr asiantaethau.** Mae angen i'r rhain fod yn effeithlon a deinamig, ac mae angen iddynt allu ymateb i anghenion sy'n newid.
- **Y gweithlu.** Ni ddylid cymryd pobl sy'n gweithio mewn gofal yn ganiataol. Ni ddylid tybio y byddant yn hapus i symud rhwng darparwyr hyd yn oed os oes trefniadau TUPE ar waith.

Caerdydd: Prynu deinamig

Roedd Cyngor Caerdydd hefyd yn wynebu cyfyngiadau gyda'i contractau fframwaith cyfredol, a phan ddaeth y rhain i ben bu iddo geisio cyflwyno system fwy hyblyg ac ymatebol i ddarparu gofal cartref. Mabwysiadodd yr awdurdod lleol fodel prynu deinamig lle'r oedd pecynnau gofal unigol yn cael eu trefnu drwy system gyfrifiadurol, gydag asiantaethau yn cyflwyno ceisiadau ar bris a'u gallu i fodloni'r anghenion penodol.

Cynigiwyd contractau ar sail sgôr, a oedd yn cynnwys ansawdd a phris. Bu i'r dull hwn ddenu llawer o bryder, yn enwedig y byddai'n arwain at leihau ffioedd ac ansawdd nad oedd cystal.

Dilynwyd y gweithrediad yn agos, ac roedd yn amlwg nad oedd ffioedd wedi cwmpo ond mewn gwirionedd yn uwch na chyfartaledd Cymru. Roedd y system wedi creu tryloywder i'r awdurdod lleol a'r darparwyr, ac wedi galluogi rhai darparwyr i arbenigo mewn gwasanaethu anghenion penodol neu ardaloedd penodol yng Nghaerdydd, a thrwy hynny eu galluogi i leihau costau. Yn fwy diweddar, mae Caerdydd wedi atgyfnerthu elfen ansawdd y system sgorio. Mae'n ymddangos na wireddwyd yr ofnau am y system eto a'i bod wedi creu modd effeithlon o osod contractau.

Fodd bynnag, er bod nifer y darparwyr ar y system wedi cynyddu pum gwaith, roeddent yn bod yn ddetholus iawn o ran pa contractau i wneud cais amdanynt. O ganlyniad i hyn, roedd bylchau'n ymddangos a materion capasiti y mae Caerdydd bellach wedi ceisio mynd i'r afael â nhw.

Y farchnad – gofal cartref

Mae'r farchnad cyflenwi gofal cartref yn anodd i'w dadansoddi gan ei bod yn cynnwys amrywiaeth eang o wahanol ddarparwyr sydd yn darparu gwasanaethau gwahanol. Mae hefyd yn ddeinamig ac yn newidiol iawn. Yn wahanol i gartrefi gofal sy'n asedau sefydlog, gall asiantaethau gychwyn, diflannu, tyfu neu grebachu yn gymharol hawdd.

Yr ydym yn ymwybodol o lefel uchel o gaffaeliadau asiantaethau lleol gan gwmnïau amlwladol mawr. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn cael eu hadlewyrchu a'u casglu trwy ein cofrestriadau gan fod tuedd i gadw cofrestriadau presennol a chaniatáu i asiantaethau barhau i redeg fel cwmnïau ar wahân.

Mae rhai asiantaethau yn arbenigo mewn diwallu anghenion penodol (e.e. anableddau dysgu, ailalluogi) tra bod eraill yn generig. Mae rhai yn darparu gwasanaethau tai â chymorth pwrpasol, tra bod eraill yn darparu gofal ar draws amrywiaeth o wasanaethau drwy drefniadau prynu crynswth neu brynu unigol. Hefyd, mae rhai asiantaethau yn asiantaethau nysio.

Rydym yn gweld asiantaethau gofal cartref yn cael eu comisiynu gan y GIG yn gynyddol i gefnogi cyflyrau tymor hir cymhleth neu helpu gyda threfniadau rhyddhau o'r ysbyty.

Cynigiodd yr adroddiad 'The Home Care Deficit', a gyhoeddwyd gan yr UK Home Care Association (UKHCA) ym mis Mawrth 2015, mai £15.74 yw pris gofal cartref yr awr, er mwyn rhedeg gwasanaeth cynaliadwy gyda staff yn cael yr isafswm cyflog cenedlaethol (gan ystyried amser teithio).

Gan ddefnyddio cyfrifiad cyfartaledd wedi'i bwysoli yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol, cyfrifwyd mai'r gyfradd gyfartalog sy'n cael ei thalu yng Nghymru yw £14.28, yr uchaf yn y DU (£13.66 oedd cyfartaledd y DU).

Fodd bynnag, nododd dadansoddiad fesul ardal awdurdod lleol amrywiaeth ar draws Cymru o £11.67 i £16.24 yr awr. Er bod angen trin y ffigurau hyn gyda rhywfaint o ofal, dywedodd darparwyr wrth arolygwyr fod y dull o gomisiynu, caffael a'r ffioedd a delir yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol, a bod rhai awdurdodau lleol

yr oedd yn well ganddynt wneud busnes gyda nhw. Yn amlwg, nid yw'r amrywiaeth hwn yn ddymunol.

Mae'r adolygiad gofal cartref cenedlaethol yr ydym yn ei gynnal yn ceisio deall a disgrifio'r system gyflawn yn ymwneud â gofal cartref, yn enwedig effaith comisiynu a chaffael ar weithrediad asiantaethau ac yn ei dro profiad y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a'r gweithwyr gofal sy'n darparu gofal. Mae gennym ddiddordeb arbennig i wybod os yw'r cysyniad o symud i gomisiynu ar sail canlyniad (fel sydd wedi'i gynnig gan John Bolton)¹⁴ yn hytrach na chomisiynu ar sail tasg ac amser yn realistig a chynaliadwy. Y gweithlu gofal cartref yw elfen hanfodol y system, ac rydym yn gwybod bod cyflenwad gweithlu a throsiant staff yn faterion pwysig sydd angen sylw. Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru i ystyried y camau angenrheidiol i ddatblygu gweithlu cymwys i gyflawni'r swm o waith sydd ei angen yn y dyfodol.

Gofal i oedolion iau

Ni wnaeth gwasanaethau i oedolion iau gynhyrchu'r un lefel o bryder na phroffil cyhoeddus yn 2014-15. Gall hyn fod oherwydd bod llai o bwysau yn y system oherwydd nad oedd galw yn cynyddu a bod patrymau darpariaeth yn wahanol, er enghraifft timau rheoli gofal wedi'u hintegreiddio'n llawn a lleoliadau a gwasanaethau gofal arbenigol llai sy'n cael mwy o dâl.

Er gwaethaf y diffyg pryder amlwg, credwn fod angen sicrwydd ar gyfer y sector hwn, ac felly bu i ni gychwyn ar adolygiad thematig cenedlaethol o'r gofal a'r gefnogaeth i bobl ag anableddau dysgu, y mae adroddiad i fod i gael ei gyflwyno gennym yn ystod gwanwyn 2016. Roeddem am edrych yn arbennig ar p'un ai oedd y gwersi o Winterbourne

View wedi'u dysgu a deall profiadau pobl gydag anableddau dysgu wrth iddynt geisio cefnogaeth gan y system gofal.

Mae patrwm darpariaeth cartrefi gofal ar gyfer gwasanaethau i oedolion iau (anableddau dysgu ac iechyd meddwl) yn wahanol i'r ddarpariaeth ar gyfer pobl hŷn. Mae cyfran uwch o gartrefi gofal yn cael eu gweithredu gan ddarparwyr mawr neu ganolig (159 o wasanaethau) gan gynnig gofal preswyl arbenigol i bobl gydag anghenion cymhleth.

Yn 2014-15 roedd 24 darparwr gyda phedwar cartref neu fwy yng Nghymru, gyda chyfartaledd o tua saith gwely i bob cartref. Roedd gan y pedwar darparwr mwyaf yng Nghymru 11, 12, 12 ac 18 cartref yn y drefn honno. Yn ddiddorol, er bod nifer o ddarparwyr yn gweithredu ar draws y DU, oni bai am un cartref, mae'r holl ddarparwyr yng Nghymru'n canolbwyntio eu holl weithgarwch naill ai yn ne neu ogledd Cymru.



¹⁴ www.ipc.brookes.ac.uk/publications/pdf/John_Bolton_Outcome_Based_Commissioning_Paper_April_2015.pdf

Pennod Saith

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2015–18

Mae ein hadroddiad blynyddol 2013-14 yn nodi cyd-destun yr heriau sy'n ein wynebu a'n blaenoriaethau ar gyfer 2014–16 yn fanwl. Mae'r cyd-destun a'n blaenoriaethau'n parhau i fod yn ddigyfnewid i raddau helaeth: rydym yn wynebu effaith newidiadau i'r holl ddeddfwriaeth sy'n sail i bob agwedd ar ein gwaith, gydag awdurdodau lleol a gwasanaethau a reoleiddir. Yr hyn sy'n dod yn fwyfwy amlwg yw y bydd effaith hyn yn sylweddol iawn. Rydym wedi gweld yn barod bod hyn yn profi'n heriol ar ein hadnoddau, yn arbennig ein staff gweithredol a staff uwch, y mae angen iddynt barhau i ganolbwyntio ar gynnal y busnes fel arfer, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu harolygu a phryderon yn derbyn ymateb.

Yr hyn sydd hefyd yn dod i'r amlwg yw bod y newidiadau i ddeddfwriaeth yn cael effeithiau disgwylidig ac annisgwyl, ac mae'r effeithiau annisgwyl yn dod â rhai o'r risgiau mwyaf i reoleiddio a sicrwydd effeithiol.

Felly, wrth symud ymlaen mae angen gweithlu cynaliadwy arnom i gwrdd â'r galwadau cystadleuol hyn ac i'n galluogi i barhau i roi sicrwydd am ddiogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal i bobl yng Nghymru.

Rheoleiddio ac arolygu

- Monitro gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: cwblhau a chyflwyno fframwaith arolygu newydd ar gyfer awdurdodau lleol.
- Datblygu a pharatoi ar gyfer gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
- Cwblhau a rhoi fframwaithiau arolygu newydd ar waith, gan ymgorffori yn arbennig lles a hawliau dynol fel rhan o'n fframwaith arolygu.
- Monitro a hyrwyddo strategaeth Mwy na Geiriau i gryfhau'r Gymraeg mewn gwasanaethau gofal.

- Rhoi'r newidiadau yn y Mesur Plant ac ymestyniad oedran ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau i blant dan 12 mlwydd oed ar waith.
- Treialu fframwaith arolygu ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed ar y cyd ag Estyn.
- Datblygu fframwaith arolygu newydd ar gyfer gwasanaethau maethu, cartrefi plant ac asiantaethau mabwysiadu.
- Datblygu argymhellion '*In Search of Accountability*', adolygiad Dr Flynn.
- Datblygu argymhellion '*Lle i Alw'n Gartref*', adolygiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o gartrefi gofal.
- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref.
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Y Papur Gwyrdd '*Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd*', sy'n edrych ar wella ansawdd gwasanaethau iechyd ac atebolrwydd, llwyodraethu a swyddogaethau sefydliadau'r GIG, gan gynnwys cylch gwaith a swyddogaethau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Blaenoriaethau cyffredinol

- Cyfathrebu: cynyddu ein gwelededd, cyfranogiad ac ymgysylltiad yn ystod cyfnod o newid.
- Cryfhau ymgysylltiad gyda dinasyddion yn ein gwaith, yn benodol adeiladu galluedd ein paneli cyngori rhanbarthol.
- Cryfhau ymgysylltiad gyda darparwyr rheoledig yn ein gwaith datblygu.
- Datblygu swyddogaeth TGCh: gan gynnwys asesiadau risg, amserlennu, a chwblhau gweithrediad ein system TGCh newydd a gwasanaeth ar-lein ar gyfer darparwyr.

- Casglu gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau: sicrhau bod hunanasesiadau ar-lein yn darparu'r wybodaeth yr ydym ni ac eraill ei hangen i ddeall natur ac ansawdd gwasanaethau a phroffil y galw ar draws y gwasanaethau.
- Systemau sicrhau ansawdd i sicrhau fod pob agwedd ar ein gwasanaethau yn addas i'r diben ac yn ddibynadwy. Yn benodol, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ansawdd ein camau gwneud penderfyniadau ac ansawdd ein harolygiadau ac adroddiadau.
- Datblygu'r gweithlu: rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i sicrhau y gallwn ddiwallu gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg, sy'n dod i rym ar 30 Mawrth 2016. Yn ystod cyfnod o newid, mae angen i ni hefyd ganolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth a chynllunio olyniaeth. Yn olaf ac yn bwysicaf oll, mae'n rhaid i ni gryfhau sylfaen sgiliau arolygwyr, gan gynnwys ein staff y telir ffi iddynt, er mwyn eu paratoi ar gyfer fframweithiau arolygu newydd.



Atodiad A

Yr hyn rydym yn ei wneud

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn gweithio.

Rydym yn gyfrifol am reoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys meithrinfeydd, cartrefi i bobl hŷn, ac awdurdodau lleol, i sicrhau eu bod yn ddiogel i'r bobl sy'n eu defnyddio.

Ein cyfrifoldeb ni yw rhoi sicrwydd ac amddiffyniad i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a gofalwyr, a'r cyhoedd ehangach. Mae gennym hefyd swyddogaeth allweddol yn gwella ansawdd gofal a gwasanaethau i oedolion a phlant ledled Cymru.

Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod pobl yn derbyn gofal diogel, hygyrch a da sy'n bodloni eu hanghenion ac yn gwella ansawdd eu bywyd.

Ein rôl ni yw:

- rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau mewn modd effeithlon ac effeithiol a hysbysu ein canfyddiadau;
- rhoi sicrwydd annibynnol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a'u teuluoedd a gofalwyr, am ansawdd gofal cymdeithasol yng Nghymru ac ymhle a phryd mae ar gael;
- helpu i ddiogelu oedolion a phlant, gan sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn a'u bod yn derbyn gofal gan bobl sy'n addas i wneud hynny;
- gwella gofal, gwasanaethau a chanlyniadau i bobl;
- sicrhau bod darparwyr cofrestredig yn bodloni gofynion y cofrestriad ac yn parhau i wneud hynny;
- darparu tystiolaeth a chynghor annibynnol a phroffesiynol i lywio datblygiadau polisi a gwella gwasanaethau er mwyn bodloni anghenion pobl;
- gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill ledled y DU sy'n archwilio, rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys rheoleiddwyr gweithlu, i gefnogi'r gwaith o graffu'n effeithiol ar wasanaethau cyhoeddus;
- darparu gwybodaeth i weinidogion Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru am wasanaethau gofal cofrestredig, gofal plant, a pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

Ein nod yw:

- rhoi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol wrth wraidd ein gwaith a'u cynnwys ym mhopeth a wnawn;
- ymateb a chymryd camau gweithredu cadarn pan fydd pobl yn profi gofal gwael neu pan fydd pobl yn agored i risg;
- bod yn annibynnol, yn wrthrychol ac yn deg;
- hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, hawliau plant a hawliau dynol ledled gwasanaethau gofal, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol;
- bod yn hygyrch ac yn dryloyw;
- defnyddio'r un safonau o welliant parhaus yn ein busnes ni ag y byddem yn eu disgwyl gan eraill;
- hybu gwelliant yn y sectorau gofal oedolion, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol a dysgu gwersi o'r pethau nad ydynt yn gweithio'n dda;
- gweithio mewn partneriaeth ag eraill gan gynnwys rhai sy'n defnyddio, comisiynu a darparu gwasanaethau, a rheoleiddwyr, arolygiaethau ac archwilwyr eraill;
- parchu ac ymateb i anghenion iaith pobl.

Cefnogi Cymru i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel

Mae ein gwaith yn cefnogi Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, sy'n ymroddedig i welliant parhaus gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau:

- bod gan bobl lais cryf a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau gofal y maent yn eu derbyn;
- bod hawliau pobl yn cael eu hamddiffyn;
- bod plant a theuluoedd yn cael gofal plant blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel;
- cydweithio effeithiol gyda gwasanaethau cyhoeddus, rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill.

Rydym wedi cyflawni hyn drwy ailalinio ein gwaith i gyflawni nodau Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant,

a'r Strategaeth Tlodi Plant a thrwy gydweithrediad cryf trwy Arolygu Cymru.

Er ein bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae nifer o drefniadau ar waith i sicrhau ein bod yn amddiffyn ein hannibyniaeth. Caiff y rhain eu nodi mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhyngom ni, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a gweinidogion Cymru.

Ein tair swyddfa ranbarthol yng Nghyffordd Llandudno, Merthyr Tudful a Chaerfyrddin yw'r canolbwynt gweithredol ar gyfer ein gwaith gyda gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'n gwaith rheoleiddiol. Mae ein swyddfa genedlaethol, hefyd ym Merthyr Tudful, yn arwain ar gyflawni adolygiadau strategol, ymgysylltu â phobl, rheoli gwybodaeth, ac ystod o wasanaethau corfforaethol, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.



Cydweithio

Mae'n bwysig ein bod yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon gyda'n partneriaid. Yn unol â rhaglen Arolygu Cymru, rydym yn cydweithio'n agos ag arolygiaethau eraill gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i:

- hybu cydgynllunio a chydweithio;
- cydlynu cynllunio i gynhyrchu rhaglenni gwaith sy'n osgoi dyblygu a sicrhau bod risgiau a phryderon allweddol yn cael eu harchwilio;
- datblygu arferion rhannu gwybodaeth;
- canfod cyfleoedd i ddwyn gwybodaeth ynghyd am wasanaethau cyhoeddus ac adrodd mewn ffordd sy'n cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau, yn llywio'r broses o lunio polisïau, ac sy'n cryfhau atebolrwydd cyhoeddus.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gofal Cymru, sy'n gyfrifol am reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod y gweithlu sy'n cyflenwi gwasanaethau cymdeithasol a gofal plant yn ddiogel i ymarfer a bod ganddo'r sgiliau a chymwysterau cywir i weithio i safon broffesiynol uchel. Rydym yn cydweithio i hybu rhannu gwybodaeth, yn arbennig mewn perthynas â diogelu ac addasrwydd pobl i ymarfer yn y maes gofal.

Rydym hefyd yn aelodau o Goncordat Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru a Fforwm Rheoleiddwyr Cymru.

Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Rydym yn arolygu ac adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i weld sut maent yn:

- bodloni anghenion pobl, gwella ansawdd eu bywyd, a hybu eu hawliau a'u lles;
- amddiffyn oedolion a phlant sy'n agored i niwed, esgeulustod neu gamdriniaeth;
- gwella'r ffordd mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cyflenwi.

Bob blwyddyn, rydym yn cwblhau a chyhoeddi gwerthusiad o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff y gwerthusiad ei lywio gan waith hunanasesu gwasanaethau sy'n cael ei gyflawni gan gyfarwyddwyr gwasanaethau

cymdeithasol, data perfformiad, a'n cyfarfodydd ymgysylltu chwarterol gydag uwch reolwyr i drafod cynnydd a datblygiadau gwasanaethau.

Rydym yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys:

- adolygiadau cenedlaethol a thematig;
- arolygiadau awdurdodau lleol â phwyslais a gwaith gwella mewn ymateb i faterion penodol sy'n codi;
- monitro ac adrodd ar y defnydd o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fel sy'n ofynnol.

Pan fydd methiannau difrifol yn cael eu nodi, rydym yn rhoi ein protocol pryderon difrifol ar waith, sy'n golygu monitro rheolaidd ac ymweld ac arolygu'r awdurdod lleol dan sylw i weithio gydag ef i wneud y gwelliannau angenrheidiol.

Gwasanaethau a reoleiddir

Cofrestiad

Fel rhan o'n swyddogaeth reoleiddiol ar hyn o bryd, rydym yn cofrestru gwasanaethau gofal oedolion, gofal plant a chwarae newydd i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion cyfreithiol, yn dangos eu bod yn gallu darparu gofal o ansawdd da, ac yn ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym hefyd yn amrywio cofrestriad gwasanaethau ac yn gorfodi amodau, o ran uchafswm nifer y bobl y gall gwasanaeth ofalu amdano er enghraifft. Pan fydd gwasanaeth yn diddymu ei gofrestrriad neu pan fydd yn wynebu cau yn sydyn, ein blaenoriaeth ni yw diogelu'r bobl sy'n defnyddio gwasanaeth trwy weithio gyda'r darparwr, yr awdurdod lleol ac eraill i sicrhau bod newidiadau'n cael eu cynllunio a bod cyn lleied o ansicrwydd â phosibl. Bydd manylion ein swyddogaeth reoleiddiol yn newid gyda dyfodiad y ddeddfwriaeth newydd.

Cymeradwyo gwirfoddol

Rydym hefyd yn gweithredu cynllun cymeradwyo gwirfoddol i nanis sy'n gofalu am blant yn y cartref. Mae'r cynllun yn rhoi mwy o sicrwydd i rieni bod y nanis maent yn eu cyflogi'n cwrdd â gofynion sylfaenol ar gyfer darparu gofal plant gan gynnwys gwiriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a chadarnhad eu bod yn meddu ar gymwysterau gofal plant addas a thystysgrif cymorth cyntaf gyfredol. Mae hefyd yn rhoi tystiolaeth i rieni sy'n gymwys i dderbyn credydau cynhwysol neu gymorth ariannol arall.

Dim ond yng Nghymru y caiff y cynllun ei gydnabod, ac mae angen i nanis adnewyddu eu cymeradwyaeth yn flynyddol.

Arolygu

Unwaith mae gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda ni, rydym yn monitro ei berfformiad ac yn cynnal arolygiadau rheolaidd i sicrhau bod pobl yn derbyn y canlyniadau gorau i fodloni eu hanghenion. Mae arolygiadau wrth wraidd ein gwaith sicrwydd, ac mae ein cylch gwaith yn golygu ein bod yn ymweld â gwasanaethau i oedolion, cartrefi plant a gwasanaethau gofal dydd bob blwyddyn. Byddwn yn ymweld yn amlach â gwasanaethau yr ydym yn credu iddynt fod yn risg uchel. Mae ein harolygiadau bob amser yn ddirybudd ac eithrio gwasanaethau mabwysiadu a maethu.

Fel rhan o'r broses arolygu, mae ein harolygwyr yn gwirio gwybodaeth drwy ein gwaith monitro gan gynnwys manylion am unrhyw bryderon, tueddiadau, a chmau gweithredu a godwyd mewn arolygiadau blaenorol.

Rydym yn defnyddio pedair thema arolygu i asesu darparwyr ac adrodd am ddiogelwch ac ansawdd profiadau'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau:

- Ansawdd Bywyd;
- Ansawdd Staff;
- Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth;
- Ansawdd yr Amgylchedd.

Mae ein harolygwyr yn treulio amser yn arsylwi ar ofal, yn siarad â staff a phobl a gwranddo arnynt er mwyn deall eu profiadau, ac yn sicrhau bod y gofal maent yn ei dderbyn yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae hyn yn sicrhau bod lles pobl wrth wraidd ein gwaith.

Mae pob un o'n harolygwyr yn defnyddio dull fframwaith arsylwi cryno ar gyfer arolygu (SOFI) i asesu profiadau pobl nad ydynt o bosibl yn gallu dweud sut maent yn teimlo, er enghraifft pobl sydd â dementia, babanod a phlant bach. Ar ôl pob arolygiad, rydym yn llunio adroddiad a gaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan. Mae adroddiadau'n cynnwys unrhyw broblemau cydymffurfio a gwelliannau rydym yn gofyn i'r gwasanaeth eu gwneud.

Newidiadau i'n harolygiadau

Rydym yn ystyried yn barhaus sut y gallwn fireinio, gwella ac ehangu ein cyfraniad at wella gwasanaethau gofal oedolion, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol, ac rydym yn y broses o ailfodelu ein holl fframweithiau arolygu i gwrdd â gofyniad deddfwriaethol newydd, ac i osod mwy o bwyslais ar brofiadau a chanlyniadau lles pobl. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r newidiadau rydym yn eu gwneud i'n dulliau a'n rhaglen arolygu ym mhennod tri.

Camau gorfodi

Pan mae gwasanaethau yn methu â darparu gofal diogel o ansawdd da ac yn mynd yn groes i'r rheoliadau, byddwn yn cymryd camau gorfodi. Y cam cyntaf yw cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio sy'n gofyn i'r darparwr wneud newidiadau'n brydlon. Os nad yw'r problemau'n cael eu datrys, byddwn yn gofyn i'r darparwr cofrestredig gwrdd â ni i drafod ein pryderon a chytuno ar ffordd ymlaen.

Os bydd gwasanaeth yn methu â bodloni safonau neu'n mynd yn groes i reoliadau'n barhaus, yn sylweddol neu'n ddifrifol, yna byddwn yn cymryd camau gorfodi. Gall y camau gorfodi hyn fod yn rhai 'sifil', er enghraifft diddymu neu gyfyngu ar gofrestrriad y gwasanaeth, neu mewn amgylchiadau eithriadol gallant fod yn 'droseddol', pan fyddwn yn erlyn y darparwr gwasanaeth ac yn dwyn achos llys yn ei erbyn. Mewn achosion eithafol, er enghraifft pan fydd diogelwch, bywyd neu les unigolyn mewn perygl, byddwn yn cymryd camau ar unwaith i ddiddymu'r cofrestrriad.

Mae ein hadroddiadau'n galluogi:

- perthnasau a'r cyhoedd i gael gwybodaeth am ansawdd gwasanaethau a'r ansawdd y dylent ei ddisgwyl gan eu darparwr gofal;
- ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol i wneud penderfyniadau ynglŷn â gofal yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf o arolygiadau ac arferion gorau;
- darparwyr gwasanaeth i archwilio perfformiad eu gwasanaeth ac asesu'r gwelliant yn y gofal y maent yn ei ddarparu;
- comisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol i fod yn hyderus bod y gwasanaeth y maent yn ei brynu o ansawdd da, yn gost effeithiol, ac yn canolbwyntio ar welliant.

Gwasanaethau a reoleiddir gennym ni

Gwasanaethau oedolion – Cofrestrwyd ac arolygwyd dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol a wnaed dan y Ddeddf honno.

Cartrefi gofal, asiantaethau gofal cartref, cynlluniau lleoli oedolion.

422 o asiantaethau gofal cartref a sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain ac yn y gymuned.

661 o gartrefi gofal i bobl hŷn gyda 22,413 o lefydd a 443 o gartrefi gofal i oedolion iau gyda 3,479 o lefydd wedi'u cofrestru.

11 o gynlluniau lleoli oedolion yn cael eu rhedeg yn lleol ac yn galluogi hyd at ddau unigolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth i fyw fel rhan o deulu, ac fe allant fod ar sail barhaol, tymor byr neu am gyfnodau.

Gwasanaethau gofal plant – Cofrestrwyd ac arolygwyd gennym dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd 4,405 o wasanaethau gofal plant gyda 77,314 o lefydd i blant dan wyth mlwydd oed gan gynnwys gwarchodwyr plant, meithrinfeydd, a chlybiau ar ôl ysgol.

Gwasanaethau plant – Cofrestrwyd ac arolygwyd gennym dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol a wnaed dan y Ddeddf honno.

Gwasanaethau maethu annibynnol, asiantaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol.

48 o wasanaethau maethu, 26 ohonynt yn cael eu gweithredu gan y trydydd sector a 22 yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol. Rydym yn gyfrifol am arolygu asiantaethau ac awdurdodau lleol i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gallu bodloni anghenion plant a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.

Roedd 24 o wasanaethau mabwysiadu.

Rydym yn arolygu gwasanaethau mabwysiadu a ddarperir gan awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, ond nid ydym yn eu cofrestru. Maent yn darparu gwasanaethau sy'n cynnwys recriwtio, asesu a chymeradwyo oedolion sydd am fabwysiadu plentyn, yn ogystal â rhoi cymorth i'r darpar fabwysiadwyr a phlant, gan gynnwys brodyr a chwiorydd. Er hynny, rydym yn cofrestru asiantaethau mabwysiadu annibynnol, ac roedd un asiantaeth ar ein cofrestr.

133 o gartrefi gofal plant wedi'u cofrestru i ddarparu 590 o leoedd. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o wasanaethau gan gynnwys cartrefi gofal i blant sy'n derbyn gofal, lleoliadau arbenigol ar gyfer uchafswm o 52 wythnos, a gwasanaethau seibiant i blant ag ystod o anableddau.

Gwasanaethau eraill – Caiff y sefydliadau hyn eu cymeradwyo gan weinidogion Cymru dan Ddeddf Addysg 1996, ond rydym yn arolygu ar y cyd ag Estyn mewn nifer o achosion.

Ysgolion arbennig preswyl, ysgolion preswyl, a cholegau addysg bellach sy'n darparu ar gyfer myfyrwyr dan 18 oed.

Rydym yn gyfrifol am arolygu trefniadau lles ar gyfer plant mewn ysgolion preswyl, ysgolion preswyl arbenigol, a cholegau addysg bellach yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu'r ddarpariaeth addysg. Ar 31 Mawrth 2015, roedd deg o ysgolion preswyl gydag 1,341 o lefydd a deuddeg o ysgolion preswyl arbennig gyda 238 o lefydd wedi'u cofrestru.

Atodiad B

Sut i leisio pryder



Sut i leisio pryder

Os ydych chi'n anhapus â gwasanaeth rhowch wybod i'r darparwr – mae ganddynt eu gweithdrefnau cwyno eu hunain.



Dal yn anhapus?
Rhowch wybod inni.

Gallwch leisio pryder mewn nifer o ffyrdd...



Ffoniwch ni:
0300 7900 126

Byddwch yn glustiau ac yn llygaid inni ar lawr gwlad



E-bostiwch ni:
CSSIW@wales.gsi.gov.uk



Llenwch ein ffurflen
adborth ar-lein:
www.aggcc.org.uk

Rhowch
wybod inni,
waeth beth
fo maint y
pryder.



Ysgrifennwch atom:
Swyddfa Genedlaethol
AGGCC,
Llywodraeth Cymru,
Rhydycar, CF48 1UZ



Wyneb i wyneb:
Siaradwch ag un o'n harolygwyr
yn ystod arolygiad

Gallwch hefyd
wyllo ein fideo ar
sut i leisio pryder
[www.youtube.com/
CSSIW/AGGCC](http://www.youtube.com/CSSIW/AGGCC)



Anfonwch
neges drydar
atom
@Arolygu_gofal

Os oes gennych chi gŵyn ynghylch awdurdod lleol
gallwch gysylltu â'r

**Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus**

Os oes gennych chi gŵyn ynghylch gweithiwr gofal
cymdeithasol gallwch gysylltu â

Chyngor Gofal Cymru

Yn ystod 2013–14 derbyniom ni **2170** o
bryderon a gwnaethom gynnal **284** o
arolygiadau ychwanegol o ganlyniad i'r
pryderon a leisiwyd.